Cyngor Cyllido Addysg
Uwch Cymru

hefcw

Higher Education Funding
Council for Wales

CYNLLUN IAITH GYMRAEG

a baratowyd o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993

Noddir gan
Lywodraeth Cynulliad Cymru
Sponsored by
Welsh Assembly Government

CYNGOR CYLLIDO ADDYSG UWCH CYMRU

CYNLLUN IAITH GYMRAEG

Mae'r Cynllun hwn wedi derbyn cymeradwyaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg o dan adran 14 (i) o Ddeddf yr Iaith Gymraeg ar 3 Mai 2005.

CYFLWYNIAD

Mae Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (a elwir wedi hyn yn CCAUC neu'r Cyngor) wedi mabwysiadu'r egwyddor, wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru, y bydd yn trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal. Mae'r cynllun hwn yn nodi sut y bydd CCAUC yn gweithredu'r egwyddor hon wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru.

CYNGOR CYLLIDO ADDYSG UWCH CYMRU

Corff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad yw Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru. O dan Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992, mae'r Cyngor yn gyfrifol am weinyddu'r cyllid a roir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i gynnal yr addysg a ddarperir a'r ymchwil a wneir gan sefydliadau addysg uwch Cymru a chyrsiau addysg uwch penodedig a ddarperir yn sefydliadau addysg bellach Cymru. O dan Ddeddf Addysg 1994, mae'r Cyngor yn gyfrifol am achredu darparwyr hyfforddiant cychwynnol ar gyfer athrawon ysgol ac am gomisiynu ymchwil i wella safonau athrawon a hyfforddiant athrawon. Bydd y Cyngor yn derbyn grant o oddeutu £361m gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn 2004/05.

Mae gan y Cyngor hyd at ddeuddeg aelod, gan gynnwys y Cadeirydd. Mynychir cyfarfodydd y Cyngor gan aseswyr a benodir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Bydd y Cyngor yn cyfarfod wyth gwaith y flwyddyn fel rheol. Cynhelir y rhan fwyaf o'r cyfarfodydd yn swyddfeydd y Cyngor yng Nghaerdydd, er bod hyd at dri chyfarfod yn cael eu cynnal mewn sefydliadau addysg uwch yng Nghymru. Mae'r Cyngor yn cyflogi oddeutu 52 o staff, gan gynnwys 18 y mae ganddynt gytundebau deuol ar hyn o bryd â Chyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant. Mae'r mwyafrif o'r staff yn gweithio yn swyddfeydd y Cyngor yng Nghaerdydd.

Y mae deuddeg sefydliad addysg uwch yng Nghymru sy'n derbyn cyllid gan y Cyngor:
Prifysgol Morgannwg
Prifysgol Cymru, Aberystwyth
Prifysgol Cymru, Bangor
Prifysgol Caerdydd (a gyfunodd â Choleg Meddygaeth Prifysgol Cymru yn ystod 2004)
Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd
Prifysgol Cymru, Llanbedr
Prifysgol Cymru, Casnewydd
Prifysgol Cymru Abertawe
Athrofa Addysg Uwch Gogledd-ddwyrain Cymru
Athrofa Addysg Uwch Abertawe
Coleg y Drindod Caerfyrddin
Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru.

Cyrff annibynnol yw sefydliadau addysg uwch Cymru. Mae gan bob un ei genhadaeth unigol sy'n cyfuno i ffurfio sector sy'n cynnig amrywiaeth o ddarpariaeth academaidd a galwedigaethol i israddedigion a graddedigion amser-llawn a rhan-amser. Y sefydliadau mwyaf yw Prifysgol Caerdydd gydag oddeutu 24,000 o fyfyrwyr a Phrifysgol Morgannwg gydag oddeutu 20,000, a'r sefydliad lleiaf yw Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru gydag oddeutu 560. Gellir dilyn rhai cyrsiau addysg uwch, yn enwedig cyrsiau diploma nid-gradd, mewn colegau addysg bellach. Darperir y cyrsiau hyn drwy drefniadau ffranseis â sefydliad addysg uwch yn bennaf, er bod y Cyngor yn cyllido peth darpariaeth yn uniongyrchol.

Cenhadaeth CCAUC yw hybu addysg uwch o safon ryngwladol yng Nghymru, er lles unigolion, cymdeithas ac economi Cymru ac y tu hwnt.

Gan weithio gyda phartneriaid, mae'r Cyngor yn defnyddio cyllid a dderbynnir gan y Cynulliad ac eraill i:

- sicrhau dysgu ac ymchwil addysg uwch o'r radd flaenaf;
- cynyddu i'r eithaf gyfraniad addysg uwch i ddiwylliant, cymdeithas ac economi Cymru;
- sicrhau darpariaeth hyfforddiant athrawon achrededig o safon uchel ar hyd a lled Cymru.

Mae gan y Cyngor chwe nod strategol creiddiol*:*

Ymgyrraedd yn Ehangach:	**Y 'Fargen i Fyfyrwyr'**:	**Ymchwil Ragorol:**	**Bod o Fudd i'r Economi a Chymdeithas:**	**Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon:**
sicrhau cyfranogiad a mynediad ehangach er mwyn hybu cymdeithas gynhwysol a gwella sgiliau er lles yr economi	sicrhau dysgu a chymorth cysylltiedig o'r safon uchaf	sicrhau gwell perfformiad ymchwil a fydd yn sylfaen i'r economi gwybodaeth ac adfywiad diwylliannol a chymdeithasol	sicrhau perthnasoedd mwy cynhyrchiol rhwng sefydliadau addysg uwch a'r sectorau cyhoeddus a phreifat, asiantaethau eraill a chymunedau lleol	cynhyrchu athrawon newydd o ansawdd uchel
Gwneud iddi Weithio: pwyslais cryf ar ailgyflunio, cydweithio, a mesurau eraill i gynnal perfformiad gwell gan sefydliadau unigol a'r gyfundrefn addysg uwch yn ei chyfanrwydd				

Wrth gyflawni'r nodau strategol hyn rhoddir sylw clir a chadarnhaol i themâu trawsbynciol y Cynulliad, gan gynnwys **dwyieithrwydd**. Gwneir hyn yn arbennig drwy ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a hyfforddi athrawon ysgol a darlithwyr addysg bellach cyfrwng Cymraeg, a thrwy gyflwyno Cynllun Iaith Gymraeg y Cyngor ei hun.

Y CYNLLUN

Anelir y Cynllun at y cyhoedd yn ei gyfanrwydd ac at y sefydliadau addysg uwch ac addysg bellach y mae CCAUC yn darparu cyllid ar eu cyfer.

Mae'r Cynllun yn canolbwyntio ar ddwy brif agwedd: gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru a rôl CCAUC fel y corff sy'n cyllido addysgu ac ymchwil yn y sector addysg uwch. Felly mae'r Cynllun wedi'i strwythuro fel a ganlyn:

	1	**Egwyddorion cyffredinol**
Rhan 1	**2**	**Delio â'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg:** Y gwasanaethau a ddarperir gan CCAUC i'r cyhoedd yng Nghymru a'i wasanaethau cyffredinol i sefydliadau addysg uwch ac addysg bellach.
	3	**Wyneb cyhoeddus CCAUC**
Rhan 2	**4**	**Addysg uwch cyfrwng Cymraeg a dwyieithog:** Polisïau a chynlluniau CCAUC i gefnogi cynnal a datblygu addysg uwch cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn y sector addysg uwch yng Nghymru.
Rhan 3	**5**	**Gweithredu a monitro**

1 EGWYDDORION CYFFREDINOL

Cymeradwywyd y Cynllun gan CCAUC ac mae ganddo awdurdod llawn y Cyngor. Ni fydd yn newid y Cynllun heb gael cymeradwyaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg ymlaen llaw.

Mae'r Cynllun hefyd yn gyson â Chynllun Cyhoeddiadau Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru a luniwyd o dan Adran 19 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 ac a gymeradwywyd gan y Comisiynydd Gwybodaeth ym mis Tachwedd 2002.

1.1 CYNLLUNIO: POLISÏAU A CHYNLLUNIAU NEWYDD NEU DDIWYGIEDIG

1.1.1 Bydd CCAUC yn sicrhau bod staff sy'n llunio neu ddiwygio polisi yn ymwybodol o'r Cynllun a chyfrifoldebau'r Cyngor o dan y Ddeddf.

1.1.2 Bydd CCAUC yn:

- asesu canlyniadau ieithyddol unrhyw bolisïau a chynlluniau newydd neu ddiwygiedig wrth eu llunio
- sicrhau bod polisïau a chynlluniau newydd neu ddiwygiedig
  - yn hybu ac yn hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg ble bynnag y bo modd
  - yn symud y corff yn nes at weithredu'r egwyddor o gydraddoldeb ar bob cyfle posibl
  - yn gyson â'r Cynllun ac nac ydynt yn ei danseilio
- sicrhau bod y mesurau yn y Cynllun yn cael eu cymhwyso at bolisïau a chynlluniau newydd neu ddiwygiedig pan weithredir hwy
- ymgynghori â Bwrdd yr Iaith Gymraeg ymlaen llaw ynghylch cynigion a fydd yn effeithio ar y Cynllun.

1.1.3 Caiff yr ymrwymiadau uchod eu gweithredu drwy'r strwythurau a sefydlwyd yn CCAUC ar gyfer rheoli a gweinyddu'r Cyngor ac ar gyfer datblygu polisi. Mae'r rhain yn cynnwys cyfarfodydd y Tîm Rheoli Uwch, cyfarfodydd y Penaethiaid Tîm a chyfarfodydd y Grŵp Polisi. Bydd unrhyw newidiadau yn y dyfodol i drefniadaeth fewnol CCAUC yn cymryd i ystyriaeth ei gyfrifoldebau o dan y Cynllun ar gyfer polisïau a chynlluniau newydd neu ddiwygiedig.

1.1.4 Bydd papurau sy'n cyflwyno polisïau neu weithdrefnau newydd neu ddiwygiedig i'r Cyngor i'w cymeradwyo yn amlinellu'r goblygiadau ar gyfer yr iaith Gymraeg a, lle bo'n briodol, ar gyfer cydymffurfio â Chynllun Iaith Gymraeg CCAUC. Bydd papurau sy'n adrodd i'r Cyngor ar gynnydd neu ganlyniadau hefyd yn adrodd ar faterion iaith Gymraeg lle bo'n briodol.

1.2 CYFLWYNO GWASANAETHAU

1.2.1 Mae'r Cyngor yn gweithredu ei bolisïau drwy'r sefydliadau addysg uwch ac addysg bellach a gyllidir ganddo. Cymhwysir polisïau a gweithgareddau ar raddfa Cymru gyfan ac ni chânt eu hamrywio fel rheol yn unol â ffocws rhanbarthol neu ardal ddaearyddol arbennig. Nid yw swyddogaethau'r Cyngor yn cynnwys darparu gwasanaethau'n uniongyrchol i'r cyhoedd. O safbwynt ei gysylltiadau â'r cyhoedd yng Nghymru felly, nod y Cyngor yw darparu lefel gyson o wasanaeth a fydd yn galluogi'r cyhoedd i ddefnyddio'i ddewis iaith yn eu hymwneud â'r Cyngor.

1.2.2 Disgrifir y mesurau penodol a fydd yn galluogi'r Cyngor i ddarparu'r gwasanaethau i'r cyhoedd sydd wedi'u nodi yn y Cynllun hwn, ac i weithredu ei bolisïau ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn addysg uwch, fel y bo'n briodol, yn yr adrannau isod, yn enwedig yn Rhan 3, Gweithredu a Monitro. Rhoddir canllawiau i'r holl staff am eu cyfrifoldebau o dan y Cynllun a darperir cyngor ychwanegol fel y bo angen gan yr uwch reolwyr, neu fel y dirprwyir drwy'r swyddog sy'n gyfrifol am y Cynllun Iaith Gymraeg. Bydd gwasanaethau cyfieithu allanol ar gael i'r staff. Bydd timau polisi o fewn CCAUC, yn enwedig y Tîm Dysgu ac Addysgu, yn datblygu'r polisïau a nodir yn Rhan 2 o'r Cynllun.

Gweithio mewn partneriaeth

1.2.3 Gall CCAUC weithio mewn partneriaeth â sefydliadau, asiantaethau a chyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru. Lle mae gweithgareddau'r bartneriaeth yn cynnwys darparu gwasanaethau neu gysylltu gyda'r cyhoedd yng Nghymru, bydd CCAUC yn ceisio sicrhau bod yr egwyddor o gydraddoldeb i'r yn cael ei rhoi i'r Gymraeg ac i'r Saesneg,a bod rôl y Cyngor ei hun mewn partneriaethau o'r fath yn cydymffurfio â'i Gynllun Iaith Gymraeg ei hun.

1.2.4 Mae CCAUC yn gweithio gyda nifer o gyrff addysg uwch yn y DU sy'n perthyn i'r sector. O fewn cwmpas eu cylchoedd gwaith, bydd CCAUC yn eu hannog i gymryd i ystyriaeth faterion yn ymwneud â'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymreig yn eu gweithgareddau. Lle'r ydym yn bartneriaid mewn cytundeb ar gyfer prosiectau neilltuol, byddwn yn pennu unrhyw ofynion iaith Gymraeg fel y bo'n briodol i'r prosiect dan sylw.

1.2.5 Mae'r polisïau a nodir yn Rhan 2 o'r Cynllun yn rhan bwysig o'r cyfraniad y mae CCAUC yn ei wneud at hybu a chynnal addysg uwch drwy gyfrwng y Gymraeg.

1.3 SAFON Y GWASANAETHAU

1.3.1 Mae CCAUC wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaeth o'r un safon uchel i'r cyhoedd yn y Gymraeg a'r Saesneg, yn unol â'r egwyddor o drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal.

1.3.2 Bydd yr ymrwymiad hwn yn cael ei nodi'n glir yn Adroddiad Blynyddol, Strategaeth Gorfforaethol a Chynllun Corfforaethol y Cyngor, mewn hysbysebion swydd, ac mewn dogfennau eraill lle gwneir datganiadau ar gyfleoedd cyfartal ac ansawdd gwasanaeth.

1.3.3 Bydd safonau gwasanaeth a threfn gwyno CCAUC yn cael eu cymhwyso'n gyfartal i wasanaethau a ddarperir i'r cyhoedd yn y Gymraeg a'r Saesneg. Byddant yn gyson â darpariaethau ei Gynllun Iaith Gymraeg o ran galluogi aelodau'r cyhoedd i ymdrin â'r Cyngor yn eu dewis iaith. Wrth asesu a mesur ansawdd ac effeithiolrwydd ei wasanaeth yn y Gymraeg, bydd CCAUC yn defnyddio'r un dangosyddion perfformiad yn union â'r rheiny a ddefnyddir mewn perthynas â gwasanaethau yn y Saesneg.

1.3.4 Bydd y modd y gweithredir safonau gwasanaeth a'r drefn gwyno yn cael ei fonitro fel rhan o drefn monitro perfformiad arferol y Cyngor. Bydd eu priodoldeb, gan gynnwys y modd y darperir gwasanaethau yn y Gymraeg i'r cyhoedd, yn cael eu hadolygu o bryd i'w gilydd. Bydd hyn yn cyfrannu at y gwaith o fonitro'r Cynllun Iaith Gymraeg yn ei gyfanrwydd. Bydd y Cyngor hefyd yn gosod, yn hysbysebu ac yn monitro targedau ar gyfer darparu gwasanaethau ac ymdrin â'r cyhoedd yn y Gymraeg bob blwyddyn.

RHAN 1

2 YMDRIN Â'R CYHOEDD SY'N SIARAD CYMRAEG

Yn yr adran hon disgrifir y gwasanaethau a ddarperir i'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg yng Nghymru a'r gwasanaethau cyffredinol i sefydliadau addysg uwch ac addysg bellach. Disgrifir polisïau a chynlluniau CCAUC i gefnogi addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn y sector addysg uwch yng Nghymru yn Rhan 2.

2.1 GOHEBIAETH YSGRIFENEDIG

2.1.1 Mae CCAUC yn croesawu llythyrau a gohebiaeth ysgrifenedig arall yn y Gymraeg a'r Saesneg.

2.1.2 Bydd gohebiaeth a dderbynnir yn y Gymraeg neu'r Saesneg yn cael ei hateb yn iaith yr ohebiaeth wreiddiol. Bydd llythyrau a dderbynnir yn y Gymraeg yn cael ateb llofnodedig yn y Gymraeg.

2.1.3 Bydd pob gohebiaeth ag aelod o'r cyhoedd neu fusnes yng Nghymru yn cael ei chychwyn yn yr iaith sy'n well gan y derbynnydd os yw'n hysbys. Anfonir gohebiaeth yn y Gymraeg hefyd yn dilyn cyfathrebu wyneb yn wyneb neu dros y ffôn yn y Gymraeg. Os na wyddys pa iaith sy'n well gan y derbynnydd, anfonir gohebiaeth ddwyieithog. Fodd bynnag, mewn rhai achosion, lle y byddai aros am gyfieithiad yn anfanteisiol i'r derbynnydd, gall llythyrau gael eu hanfon yn y Saesneg gyda neges safonol bod croeso i'r derbynnydd ateb yn y Gymraeg neu'r Saesneg. Bydd gohebiaeth wedi hynny yn newis iaith y derbynnydd. Bydd CCAUC yn llunio cronfa ddata o'r rheiny sy'n dymuno derbyn gohebiaeth drwy gyfrwng y Gymraeg.

2.1.4 Bydd CCAUC yn anfon llythyrau safonol i'r cyhoedd yng Nghymru yn ddwyieithog.

2.1.5 Bydd pob gohebiaeth e-bost yn cynnwys troednodyn dwyieithog yn dweud bod croeso i'r derbynnydd ymateb yn y Gymraeg neu'r Saesneg. Bydd unrhyw atebion wedyn yn iaith yr ymateb.

2.1.6 Os derbynnir e-bost yn y Gymraeg gan staff nad ydynt yn hyderus i ateb yn y Gymraeg a bod angen cyfieithiad o'r herwydd, gwneir pob ymdrech i sicrhau nad yw'r cyfnod ymateb yn hwy nag ar gyfer e-bost a anfonir yn Saesneg. Os nad yw'n ymarferol i drefnu cyfieithiad, er enghraifft mewn argyfwng, bydd yn dderbyniol i anfon neges Saesneg yn unig gydag ymddiheuriad ac esboniad.

2.1.7 Bydd ceisiadau am wybodaeth gan gyrff neu aelod o'r cyhoedd, gan gynnwys ceisiadau am wybodaeth a dderbynnir o dan Gôd Ymarfer CCAUC ar Hawl y Cyhoedd i Weld Gwybodaeth, yn derbyn llythyr eglurhaol yn newis iaith yr ymholwr. Bydd copïau o ddogfennau neu wybodaeth a geisir yn cael eu darparu yn eu ffurf bresennol, boed yn y Saesneg, y Gymraeg neu'n ddwyieithog (gweler 3.3.5 i 3.3.7 isod).

2.1.8 Ni fydd yr ymrwymiad i ohebu drwy gyfrwng y Gymraeg ynddo'i hun yn arwain at oedi cyn ymateb.

- Mae gan CCAUC gontractau gyda chyfieithwyr allanol ac mae'r holl staff wedi derbyn gwybodaeth ar sut i gyrchu'r gwasanaethau hyn.
- Mae staff Cymraeg ar gael fel rheol i roi cyngor ar gynnwys gohebiaeth a dderbynnir yn y Gymraeg; fel arall gall gohebiaeth gael ei hanfon yn uniongyrchol at gyfieithwyr allanol fel bod modd paratoi ateb priodol.
- Caiff meddalwedd Cymraeg ei brynu a'i ddiweddaru yn ôl y gofyn er mwyn darparu ffontiau a gwiriwr sillafu Cymraeg. Mae geiriaduron a chyfeirlyfrau ar gael i staff hefyd yn ôl y gofyn.

2.2 CYFATHREBU DROS Y FFÔN

2.2.1 Mae CCAUC yn croesawu galwadau ffôn yn y Gymraeg a'r Saesneg.

2.2.2 Bydd galwadau i switsfwrdd CCAUC yn cael eu hateb â chyfarchiad dwyieithog.

2.2.3 Bydd galwadau yn y Gymraeg i'r switsfwrdd yn cael eu hateb yn y Gymraeg naill ai gan weithredwr y switsfwrdd neu drwy drosglwyddo'r alwad i aelod Cymraeg o'r staff. Os nad oes siaradwr Cymraeg ar gael ar y pryd, gwneir trefniadau i siaradwr Cymraeg ffonio'n ôl mor fuan â phosibl neu gall y sawl sy'n ffonio barhau â'r alwad yn y Saesneg os yw'n dymuno, neu ysgrifennu at y Cyngor yn y Gymraeg a derbyn ymateb ysgrifenedig yn y Gymraeg. Bydd aelodau di-Gymraeg o'r staff sy'n derbyn galwadau yn uniongyrchol yn y Gymraeg, yn dilyn trefn gyffelyb os yw'r sawl sy'n ffonio yn dymuno parhau â'r alwad yn y Gymraeg.

2.2.4 Mae gwasanaeth post llais prif switsfwrdd CCAUC yn cynnwys neges gyfan gwbl ddwyieithog, a chroesewir negeseuon yn y Gymraeg a'r Saesneg.

2.2.5 Wrth benodi gweithredwyr switsfwrdd yn y dyfodol, bydd yn bolisi gan CCAUC i recriwtio siaradwyr sy'n rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg i'r swyddi neu, os nad yw hyn yn bosibl, i ddarparu hyfforddiant priodol i alluogi gweithredwyr switsfwrdd i ymdrin ag ymholiadau sylfaenol yn y Gymraeg cyn trosglwyddo'r alwad i aelod Cymraeg o'r staff.

2.2.6 Mae siaradwyr Cymraeg mewnol CCAUC sy'n gallu ymdrin â galwadau drwy gyfrwng y Gymraeg wedi'u nodi ar y llyfr ffôn mewnol, sy'n cael ei ddiweddaru'n rheolaidd, ac sydd ar gael i'r holl staff ar y fewnrwyd.

2.3 CYFARFODYDD CYHOEDDUS

2.3.1 Bydd croeso i'r rheiny sy'n mynychu cyfarfodydd cyhoeddus, megis cyfarfod cyhoeddus blynyddol y Cyngor, gyfrannu drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg a bydd cyfleusterau cyfieithu ar y pryd ar gael. Ar gyfer cyfarfodydd cyhoeddus lle cadarnheir y rheiny sy'n mynychu ymlaen llaw, bydd CCAUC yn darganfod pa iaith sy'n well gan bob unigolyn cyn y digwyddiad er mwyn penderfynu a oes angen trefnu cyfleusterau cyfieithu ar y pryd.

2.3.2 Bydd seminarau a chynadleddau a drefnir gan y Cyngor nad ydynt ar agor i'r cyhoedd, ond sydd ar gyfer cynrychiolwyr gwadd o'r sector addysg uwch, yn cael eu cynnal drwy gyfrwng y Saesneg fel rheol. Fodd bynnag, bydd y staff yn gwneud penderfyniad fesul digwyddiad, dan arweiniad uwch reolwyr, ynghylch a ddylid cynnal digwyddiad penodol yn ddwyieithog, ar sail pwnc a natur y digwyddiad a'r gynulleidfa debygol. Os penderfynir y dylai fod cyfle i gyfrannu yn y Gymraeg neu'r Saesneg, yna bydd y staff yn darganfod pa iaith yr hoffai aelodau'r gynulleidfa ei defnyddio ymlaen llaw. Disgwylir y bydd pob digwyddiad o'r fath sy'n ymwneud â darpariaeth addysg uwch cyfrwng Cymraeg (gweler Rhan 2) yn cael ei gynnal yn y Gymraeg neu'n ddwyieithog.

2.3.3 Bydd aelodau Cymraeg o'r staff yn bresennol ym mhob prif ddigwyddiad i groesawu'r cyhoedd ac i ymdrin ag unrhyw ymholiadau. Byddant yn gwisgo bathodynnau fel bod modd eu hadnabod.

2.4 CYFARFODYDD ERAILL Â'R CYHOEDD

2.4.1 Mae croeso i aelodau'r cyhoedd sy'n ymweld â swyddfeydd CCAUC wneud ymholiadau cyffredinol drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg. Arddangosir hysbysiad dwyieithog yn y dderbynfa i'w gwneud hi'n glir i ymwelwyr y gallant ymdrin â'r Cyngor yn y naill iaith neu'r llall. Os nad oes croesawydd dwyieithog ar gael, gwneir ymdrechion i sicrhau bod aelod Cymraeg o'r staff yn siarad â'r ymwelydd wyneb yn wyneb neu dros y ffôn i ymdrin â'r ymholiad cyffredinol cychwynnol.

2.4.2 Trefnir i aelod Cymraeg o staff CCAUC ymdrin ag unrhyw ymholiadau wyneb yn wyneb ar faterion mwy penodol pan fydd aelod o'r cyhoedd yn rhoi digon o rybudd o'i fwriad i ymweld. Ond gall fod achosion pan nad yw hyn yn bosibl oherwydd natur dechnegol neu arbenigol yr ymholiad. Yn yr achosion hyn, gwahoddir yr ymholwr i ysgrifennu at y Cyngor fel y gall roi ateb ystyriol yn y Gymraeg. Neu gellir gwneud apwyntiad a threfnu i gyfieithydd fod yn bresennol.

2.4.3 Os trefnir cyfarfod ag aelod(au) o'r cyhoedd, naill ai wyneb yn wyneb neu drwy rwydwaith fideogynadledda, bydd croeso iddynt gyfrannu yn y Gymraeg neu'r Saesneg os bydd digon o rybudd yn cael ei roi, fel y gellir darganfod pa iaith yr hoffent ei siarad a threfnu cyfleusterau cyfieithu os oes angen.

3 WYNEB CYHOEDDUS CCAUC

3.1 HUNANIAETH GORFFORAETHOL

3.1.1 Mae CCAUC wedi ymrwymo i hunaniaeth gorfforaethol gyfan gwbl ddwyieithog yng Nghymru. Mynegir hyn drwy enw, cyfeiriad a logo CCAUC a gwybodaeth safonol arall sy'n ymddangos ar:

- bapur ysgrifennu swyddogol, gan gynnwys papur pennawd, papur ffacs, slipiau cyfarch, a deunyddiau, nwyddau a chyhoeddiadau swyddogol eraill
- arwyddion mewnol ac allanol ar adeiladau CCAUC, neu arwyddion CCAUC mewn lleoliadau eraill
- hysbysebion
- gwefan CCAUC
- arddangosiadau ac arddangosfeydd CCAUC.

3.2 ARWYDDION

3.2.1 Mae arwyddion allanol a mewnol CCAUC mewn mannau lle gall ymwelwyr neu'r cyhoedd gael mynediad iddynt yn ddwyieithog. Mae hyn yn wir hefyd am unrhyw arwyddion CCAUC mewn lleoliadau eraill.

3.2.2 Lle mae arwyddion a hysbysiadau swyddogol a ddarperir gan eraill yn cael eu defnyddio yn swyddfeydd CCAUC er budd y cyhoedd, bydd CCAUC yn sicrhau y defnyddir fersiynau dwyieithog.

3.2.3 Bydd arwyddion yn parchu'r egwyddor o gydraddoldeb rhwng y Gymraeg a'r Saesneg. Bydd arwyddion Cymraeg a Saesneg, a'r testun yn y ddwy iaith ar arwyddion dwyieithog, yn gyfartal o ran fformat, maint, ansawdd, eglurder ac amlygrwydd.

3.2.4 Bydd cywirdeb arwyddion dwyieithog/Cymraeg yn cael ei wirio gan gyfieithydd neu siaradwr Cymraeg cymwys arall cyn iddynt gael eu gosod.

3.3 DEUNYDDIAU SY'N CAEL EU CYHOEDDI A'U HARGRAFFU

3.3.1 Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn cyhoeddi'r cyhoeddiadau blynyddol canlynol yn ddwyieithog:
Adroddiad Blynyddol
Strategaeth Gorfforaethol a Chynllun Corfforaethol
Canlyniadau Cyllido: Dyraniadau
Canlyniadau Cyllido: Cofrestriadau
Proffiliau Sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru
Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon: Gwybodaeth Berfformiad
Cyfraddau Cyfranogiad ar gyfer myfyrwyr Cymreig mewn addysg uwch o fewn y DU
Ystadegau Addysg Uwch, Addysg Bellach a Hyfforddiant yng Nghymru (ar y cyd â Chyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant)

Mae'r canlynol ar gael yn ddwyieithog hefyd:
Cynllun Cyhoeddiadau
Cynllun Cydraddoldeb Hiliol CCAUC
Cyhoeddiadau Fframwaith Credyd a Chymwysterau Cymru

3.3.2 Pan gyhoeddir deunydd yn ddwyieithog, bydd fersiynau Cymraeg a Saesneg yn ymddangos gyda'i gilydd yn yr un ddogfen yn hytrach nag fel fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân, oni bai bod hyn yn anymarferol oherwydd eu maint.

3.3.3 Os oes angen cyhoeddi dogfennau ar wahân yn y Gymraeg a'r Saesneg, cyhoeddir y ddwy fersiwn yr un pryd, cânt eu dosbarthu gyda'i gilydd a byddant yr un mor hygyrch. Bydd pob un yn cynnwys neges yn nodi bod y ddogfen ar gael yn yr iaith arall.

3.3.4 Pan gyhoeddir dogfen gyda phris arni, ni fydd pris y fersiwn Gymraeg yn fwy na phris y fersiwn Saesneg, ac ni fydd pris dogfen ddwyieithog yn fwy na phe bai wedi cael ei chyhoeddi fel dogfen mewn un iaith.

3.3.5 Bydd dogfennau'n ymwneud â busnes mewnol CCAUC, neu sydd â chylchrediad cyfyngedig, ond sydd wedi'u cynnwys yng Nghynllun Cyhoeddiadau'r Cyngor o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2002, ar gael yn yr iaith yr ysgrifennwyd hwy ynddi.

3.3.6 Mae'r gyfres swyddogol o gylchlythyrau a gynhyrchir gan CCAUC, ac unrhyw adroddiadau sy'n cyd-fynd â hwy, wedi'u cyfeirio at sefydliadau a chyrff yn y sector addysg uwch ac weithiau sefydliadau addysg bellach, nid at y cyhoedd yn gyffredinol. Fe'u cyfeirir yn benodol at benaethiaid y sefydliadau dan sylw. Bydd staff CCAUC, gydag arweiniad uwch reolwyr a'r swyddog dynodedig ar gyfer y Cynllun Iaith Gymraeg, yn ystyried a ddylai dogfennau neilltuol, ar sail y pwnc a'r staff yn y sefydliadau a fydd yn gyfrifol am ymdrin â hwy, gael eu cyhoeddi'n ddwyieithog. Bydd pob cylchlythyr ac adroddiad yn ymwneud â darpariaeth addysg uwch cyfrwng Cymraeg (gweler Rhan 2) yn cael eu cyhoeddi'n ddwyieithog.

3.3.7 Serch hynny, mae'r Cyngor wedi ymrwymo i fod yn agored ynghylch ei bolisïau a'i weithgareddau a bydd yn sicrhau bod llawer o'r dogfennau hyn ar gael i gynulleidfa ehangach yn yr iaith/ieithoedd gwreiddiol drwy eu rhoi ar ei wefan. Nodir ei bolisïau a'i drefniadau mewn perthynas â chyhoeddiadau yn ei Gynllun Cyhoeddiadau.

3.3.8 Bydd deunyddiau eraill sydd â dosbarthiad eang a chyffredinol, megis posteri a thaflenni, yn cael eu cynhyrchu'n ddwyieithog, fel un ddogfen pryd bynnag y bo modd, a chaiff yr ieithoedd eu trin yn gyfartal o ran fformat, maint, ansawdd, eglurder ac amlygrwydd. Wrth ddosbarthu'r deunyddiau hyn, neu unrhyw ddogfennaeth sydd gan CCAUC yn ddwyieithog, yn bersonol (er enghraifft, mewn arddangosfa neu gyfarfod cyhoeddus), bydd cynrychiolwyr CCAUC yn cynnig fersiynau Cymraeg neu ddwyieithog.

3.3.9 Bydd staff, ymgynghorwyr, dylunwyr a chyhoeddwyr yn cael canllawiau ysgrifenedig ar ymdrin â chyhoeddiadau dwyieithog.

GWEFAN CCAUC

3.3.10 Mae prif dudalennau gwe CCAUC ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg a gellir eu cyrchu drwy www.hefcw.ac.uk. Ar bob tudalen mae'r wefan yn cynnig y dewis o newid o'r naill iaith i'r llall. (Sylwer: mae gwefan CCAUC yn cael ei datblygu ar hyn o bryd.) Wrth i'r wefan ddatblygu, bydd y Cyngor yn ystyried yn ofalus wrth flaenoriaethu'r tudalennau i'w darparu yn y Gymraeg a'r Saesneg a bydd yn cytuno arnynt bob blwyddyn gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

3.3.11 Fel rhan o'i Gynllun Cyhoeddiadau, fel y nodwyd uchod, bydd y Cyngor yn trefnu bod dogfennau a gyfeiriwyd yn y lle cyntaf at gynulleidfa gyfyngedig ar gael ar raddfa ehangach. Mae'r un meini prawf yn cael eu cymhwyso at ddogfennau a roddir ar y wefan ag at ddogfennau sy'n cael eu hargraffu (fel y nodir uchod – 3.3.5 i 3.3.7). Bydd dogfennau a roddir ar y wefan yn yr iaith/ieithoedd gwreiddiol. Mae hyn yn cynnwys dogfennau a gyfeiriwyd yn wreiddiol at benaethiaid sefydliadau addysg uwch ac addysg bellach, a dogfennau'n ymwneud â busnes mewnol y Cyngor, neu a gynhyrchwyd at ddibenion mewnol, y trefnir

iddynt fod ar gael fel rhan o Gynllun Cyhoeddiadau'r Cyngor. Bydd dogfennau a gynhyrchir yn ddwyieithog yn ymddangos fel fersiynau Cymraeg a Saesneg ar y wefan.

3.4 Ffurflenni a Deunyddiau Eglurhaol Cysylltiedig

3.4.1 Nid yw CCAUC yn cynhyrchu llawer o ffurflenni a deunyddiau eglurhaol cysylltiedig at ddefnydd cyhoeddus. Bydd y canlynol ar gael yn ddwyieithog, ac mewn rhai achosion, lle gwyddys pa iaith sy'n well gan y derbynnydd, mewn fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân (cynhwysir y wybodaeth hon yn y gronfa ddata y cyfeirir ati yn 2.1.3 uchod).
Ffurflenni archeb brynu
Y rhannau o sieciau a argreffir ymlaen llaw
Ffurflenni cais am swyddi
Gwybodaeth a anfonir at ymgeiswyr mewn perthynas â swyddi gwag lle mae'r gallu i gyfathrebu yn y Gymraeg yn hanfodol
Ffurflenni cais a chyngor ar gyfer hawlio treuliau teithio a chynhaliaeth.

3.4.2 Bydd penderfyniadau ynghylch a fydd ffurflenni eraill yn ddwyieithog neu mewn un iaith yn dibynnu ar natur y ffurflen, pa mor aml y'i defnyddid, a nifer y siaradwyr Cymraeg a fydd yn ei defnyddio.

3.5 Datganiadau i'r Wasg

3.5.1 Cyhoeddir datganiadau i'r wasg yn ddwyieithog yng Nghymru, a gallant gael eu rhyddhau ar ffurf ddwyieithog i'r cyfryngau y tu allan i Gymru os yw hynny'n briodol.

3.6 Cysylltiadau Cyhoeddus a Marchnata

3.6.1 Bydd deunydd cyhoeddusrwydd CCAUC a anelir at y cyhoedd yng Nghymru yn cael ei gynhyrchu yn y Gymraeg a'r Saesneg, oni wyddys y byddai'n well gan y gynulleidfa dan sylw ei dderbyn mewn un iaith yn unig.

3.6.2 Nid yw CCAUC fel rheol yn cynnal ymgyrchoedd yn y wasg, ar y teledu neu ar y radio nac ymgyrchoedd hysbysebu, marchnata neu gyhoeddusrwydd eraill yng Nghymru. Os gwneir hyn, byddant yn cael eu cynnal yn y Gymraeg a'r Saesneg (neu, o bosibl, yn y Gymraeg yn unig os dyna yw dewis iaith y gynulleidfa dan sylw.) Ymdrinnir â'r Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal o ran fformat, maint, ansawdd, eglurder ac amlygrwydd. Rhoddir mecanweithiau yn eu lle fel y gall pobl ymateb yn y Gymraeg neu'r Saesneg.

3.6.3 Bydd arolygon cyhoeddus yng Nghymru yn cael eu cynnal yn ddwyieithog.

3.6.4 Bydd stondinau arddangos a gwybodaeth gyhoeddus CCAUC yng Nghymru yn ddwyieithog. Bydd unrhyw daflenni sydd ar gael ar wahân yn y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu harddangos gyfochr â'i gilydd a chynigir dewis i'r derbynnydd.

3.7 Hysbysiadau Swyddogol, Hysbysiadau Cyhoeddus a Hysbysebion Recriwtio Staff

3.7.1 Bydd hysbysiadau swyddogol, hysbysiadau cyhoeddus a hysbysebion recriwtio staff yng Nghymru mewn fersiynau Cymraeg a Saesneg a ddangosir gyda'i gilydd. Byddant yn gyfartal o ran fformat, maint, ansawdd, eglurder ac amlygrwydd.

3.7.2 Wrth baratoi a chyhoeddi hysbysebion recriwtio staff yng Nghymru, bydd CCAUC yn glynu at y trefniadau a ganlyn:

Bydd hysbysebion ar gyfer swyddi lle mae rhugledd yn y Gymraeg yn gymhwyster hanfodol yn ymddangos:

- yn y Gymraeg yn unig mewn cyhoeddiadau Cymraeg;
- yn ddwyieithog mewn cyhoeddiadau Saesneg sy'n cylchredeg o fewn Cymru;
- yn ddwyieithog mewn cyhoeddiadau Saesneg sy'n cylchredeg drwy'r DU yn bennaf.

Bydd hysbysebion ar gyfer swyddi lle mae rhugledd yn y Gymraeg yn gymhwyster dymunol yn cael eu cyhoeddi:

- yn y Gymraeg yn unig mewn cyhoeddiadau Cymraeg;
- yn ddwyieithog mewn cyhoeddiadau Saesneg sy'n cylchredeg o fewn Cymru;
- yn y Saesneg yn unig mewn cyhoeddiadau sy'n cylchredeg drwy'r DU yn bennaf.

Bydd hysbysebion ar gyfer swyddi lle nad oes unrhyw ofyniad ieithyddol wedi'i adnabod yn cael eu cyhoeddi:

- yn ddwyieithog ym mhob cyhoeddiad sy'n cylchredeg o fewn Cymru;
- yn y Saesneg yn unig mewn cyhoeddiadau Saesneg sy'n cylchredeg y tu allan i Gymru yn bennaf.

3.7.3 Bydd pob hysbyseb staff (boed Cymraeg yn unig, Saesneg yn unig neu ddwyieithog) yn cynnwys datganiad dwyieithog yn nodi ymrwymiad CCAUC i ddwyieithrwydd a'i fod yn croesawu ymatebion yn y Gymraeg neu'r Saesneg.

RHAN 2

4 ADDYSG UWCH CYFRWNG CYMRAEG A DWYIEITHOG

Mae'r rhan hon o Gynllun Iaith Gymraeg CCAUC yn cyflwyno fframwaith ar gyfer datblygiad strategol addysg uwch cyfrwng Cymraeg yng Nghymru. Mae'n amlinellu'r cyd-destun ar gyfer polisïau'r Cyngor ar ddwyieithrwydd a darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y sector addysg uwch.

4.1 CYD-DESTUN POLISI

4.1.1 Mae'r Cyngor yn cydnabod y rhan bwysig a chwaraeir gan y sector addysg uwch mewn gwireddu gweledigaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer Cymru ddwyieithog, fel y'i nodir yn *Iaith Pawb*, ac mewn meithrin gallu fel y gellir cyflawni darpariaethau Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 a sicrhau triniaeth gyfartal i'r ieithoedd Cymraeg a Saesneg wrth gynnal busnes cyhoeddus:

- Mae adrannau Cymraeg ac Astudiaethau Celtaidd yng Nghymru yn darparu'r sylfeini academaidd, o ran ysgolheictod ac ymchwil, sy'n hanfodol i fywiogrwydd a datblygiad yr iaith. Maent hefyd yn cynhyrchu graddedigion sy'n gallu gweithio yn yr iaith Gymraeg ar lefel uchel.
- Mae ymchwil ac ysgolheictod mewn disgyblaethau eraill ar faterion yn ymwneud â Chymru, yn y Gymraeg neu'r Saesneg, yn ychwanegu at y gronfa o wybodaeth a dealltwriaeth sy'n cyfrannu at ddatblygiad cymdeithasol, diwylliannol, addysgol ac economaidd Cymru.
- Mae'r cyfle i gymryd pynciau eraill drwy gyfrwng y Gymraeg mewn addysg uwch yn bwysig o ran galluogi myfyrwyr i astudio yn eu dewis iaith, cryfhau eu dwyieithrwydd a darparu llwybrau dilyniant o'r ysgol, addysg bellach neu addysg oedolion.
- Mae addysg uwch cyfrwng Cymraeg hefyd yn allweddol o ran cwrdd ag anghenion yr economi, cymunedau, a'r gyfundrefn addysg ehangach am raddedigion ac ôl-raddedigion dwyieithog mewn amrywiaeth o feysydd a phroffesiynau, sy'n gwasanaethu'r sector cyhoeddus a phreifat cyfan.
- Mae sefydliadau addysg uwch Cymru yn darparu hyfforddiant cychwynnol ar gyfer athrawon ysgol cynradd ac uwchradd. Mae hyn yn cynnwys athrawon ar gyfer y sectorau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn ogystal ag ar gyfer dysgu Cymraeg i ddisgyblion mewn ysgolion cyfrwng Saesneg.

4.1.2 Er mwyn cwrdd â'r amryfal alwadau hyn, mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen cynnydd yn amrywiaeth a maint y ddarpariaeth addysg uwch cyfrwng Cymraeg sydd ar gael ac yn nifer y myfyrwyr sy'n cymryd cyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg. I gyflawni hyn, rhaid cael digon o staff o fewn y sector addysg uwch i ddatblygu a chyflwyno darpariaeth cyfrwng Cymraeg.

Ymgeisio'n Uwch

4.1.3 O fewn cyd-destun cyffredinol cyfrannu at greu Cymru ddwyieithog, rheolir cyfeiriad polisi penodol CCAUC gan strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer addysg uwch yng Nghymru hyd 2010, *Ymgeisio'n Uwch – Addysg Uwch a'r Wlad sy'n Dysgu* (Mawrth 2002), a'r llythyrau arweiniad blynyddol y mae'r Cyngor yn eu derbyn gan y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes.

4.1.4 Mae *Ymgeisio'n Uwch* a datganiadau dilynol gan y Gweinidog yn dangos yn glir bod Llywodraeth y Cynulliad yn disgwyl ailgyflunio sylweddol a chydweithio llawer ehangach rhwng sefydliadau addysg uwch er mwyn cyflawni amcanion y strategaeth.

4.1.5 Mae *Ymgeisio'n Uwch* hefyd yn ailadrodd ymrwymiad Llywodraeth y Cynulliad i sicrhau bod dwyieithrwydd yn realiti yng Nghymru. Mewn perthynas ag addysg uwch, mae'n chwilio am:

> "sector sy'n ymatebol i unigolion, gan gynnwys rhai sy'n dymuno astudio rhannau o'u cyrsiau gradd trwy gyfrwng y Gymraeg. Dros amser dylid ystyried hyn yn rhan o'r ddarpariaeth brif-ffrwd, sy'n cwmpasu detholiad o gyrsiau a modiwlau . . . Rydym yn dymuno i'r sefydliadau gydweithio yn hyblyg er mwyn gweld sut y gellir bodloni'r galw cyfrwng Cymraeg, a manteisio ar dechnoleg newydd i estyn cyfleoedd."

4.1.6 Mae *Ymgeisio'n Uwch* yn gosod targed penodol i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru a'r sector mewn perthynas â darpariaeth cyfrwng Cymraeg:

> y gyfran o fyfyrwyr amser-llawn a rhan-amser mewn sefydliadau addysg uwch ac addysg bellach yng Nghymru sy'n ymgymryd â rhyw elfen o'u cwrs addysg uwch drwy gyfrwng y Gymraeg i gynyddu o 3.4% (2000/01) i 7% (2010/11).

4.2 Y Sefyllfa Bresennol

4.2.1 *Darpariaeth cyfrwng Cymraeg* Mae maint y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg wedi aros yn weddol ddigyfnewid yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gyda chofrestriadau ar fodiwlau a chyrsiau yn dod i gyfanswm o 1,000 o fyfyrwyr addysg uwch cyfwerth ag amser-llawn. Mae'r cyfanswm hwn yn cynrychioli nifer uwch o fyfyrwyr mewn gwirionedd gan nad yw pob myfyriwr yn cymryd ei gwrs cyfan drwy gyfrwng y Gymraeg ac mewn rhai achosion gall fod yn astudio elfennau cymharol fach. Mae'r rhan fwyaf o'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ym meysydd hyfforddiant cychwynnol athrawon (HCA), y dyniaethau, celf, dylunio a'r celfyddydau perfformio, a'r gwyddorau cymdeithasol. Ceir peth darpariaeth mewn pynciau eraill hefyd. Ni chofnodwyd unrhyw ddarpariaeth ym Meddygaeth a Deintyddiaeth nac mewn Peirianneg. Y prif ddarparwyr yw Prifysgol Cymru, Aberystwyth, Prifysgol Cymru, Bangor, a Choleg y Drindod, Caerfyrddin. Serch hynny, cofnododd y mwyafrif o sefydliadau yn y sector rywfaint o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn 2002/03.

4.2.2 Ers ei sefydlu, mae'r Cyngor wedi mabwysiadu polisïau penodol i gefnogi a meithrin darpariaeth cyfrwng Cymraeg.

- Mae cyllid prif ffrwd ar gyfer addysgu mewn addysg uwch yn cael ei ddarparu ar sail credydau, gydag uned adnodd am bob gwerth credyd sy'n dibynnu ar y categori pwnc academaidd y mae'r ddarpariaeth yn perthyn iddo. Mae Premiwm Cyfrwng Cymraeg, sy'n werth 26 y cant yn ychwanegol ar yr uned adnodd safonol, yn cael ei dalu am gofrestriadau ar fodiwlau a astudir drwy gyfrwng y Gymraeg i gydnabod y gost ychwanegol o gyflwyno darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Mae'r premiwm yn darparu ar gyfer cynnal y ddarpariaeth bresennol, ac ar gyfer cofrestriadau ychwanegol neu gofrestriadau ar gyrsiau newydd. Lle ceir màs critigol o ddarpariaeth, gall y premiwm fod yn llwyfan ar gyfer datblygu pellach.

- Bydd y Cyngor yn annog sefydliadau sy'n cynnig darpariaeth cyfrwng Cymraeg i fabwysiadu ymagwedd strategol at gynnal, datblygu ac estyn eu gweithgareddau ac mae ganddo Gronfa Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg i'w helpu i weithredu eu cynlluniau.

- Gyda'r sector a Phrifysgol Cymru, mae'r Cyngor yn cyfrannu at gyllido'r Uned Datblygu Addysg Cyfrwng Cymraeg. Sefydlwyd yr Uned yn 2000 ac mae'n gweithredu ar ran pob sefydliad addysg uwch yng Nghymru. Cafodd ei sefydlu i ymgymryd â gweithgareddau a fyddai'n cynyddu nifer y myfyrwyr sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg ac i estyn yr amrywiaeth o ddarpariaeth sydd ar gael. Mae'r gweithgareddau'n cynnwys hybu cydweithio a rhoi cefnogaeth ac arweiniad i sefydliadau i ddatblygu eu darpariaeth mewn ffordd strategol. Mae gan swyddogion y Cyngor berthynas waith agos â'r Swyddog Datblygu Addysg Cyfrwng Cymraeg.

- Mae trefniadau cydgysylltiedig, wedi'u cyllido gan y Cyngor, ar gyfer addysgu Cymraeg fel Ail Iaith mewn darpariaeth HCA gynradd wedi cael eu cyflwyno drwy Gynllun Colegau Cymru.

- Cafodd prosiectau sefydliadol unigol a chydweithiol i wella recriwtio i HCA, gan gynnwys darpariaeth Cymraeg a chyfrwng Cymraeg, eu datblygu o dan gynllun Darpariaeth Arloesol Newydd y Cyngor. Hefyd mae darpariaeth HCA Dysgu o bell sy'n arwain at TAR mewn Cymraeg a darpariaeth ddysgu o bell drwy gyfrwng y Gymraeg yn cael eu datblygu drwy'r prosiect Hyfforddi Athrawon/Teacher Training (HATT) a gyllidir gan y Cyngor.

4.2.3 Mae'r Cyngor yn cydnabod y rôl sydd gan sefydliadau addysg uwch mewn darparu cyrsiau dysgu Cymraeg i oedolion, yn enwedig cyrsiau dwys ac uwch. Cyllidir darpariaeth Cymraeg i Oedolion gan Gyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant. Mae'r Cyngor Cenedlaethol yn awyddus i sicrhau darpariaeth o safon uchel ac i wella cyfleoedd a dilyniant. Bydd CCAUC a'r Cyngor Cenedlaethol yn ystyried gyda'i gilydd sut y gall sefydliadau addysg uwch gryfhau eu cyfraniad at ddarpariaeth Cymraeg i Oedolion.

4.2.4 *Sicrhau ansawdd addysgu* Mae fframwaith sicrhau ansawdd a safonau y Cyngor ar gyfer darpariaeth addysg uwch yng Nghymru wedi'i seilio ar archwiliadau sefydliadol a wneir ar draws Cymru o fewn cylch chwe blynedd. Ymgymerir â'r broses archwilio ar ran y Cyngor gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch (ASA/QAA). Mae canllawiau'r ASA ar arfer effeithiol wrth arholi ac asesu mewn iaith ar wahân i iaith yr addysgu wedi cael eu darparu. Mae'r canllawiau hyn yn cydnabod amgylchiadau arbennig sefydliadau addysg uwch yng Nghymru o ran sicrhau statws cyfartal i'r Gymraeg a'r Saesneg, a'u cyfrifoldebau dros ddarparu cyfleoedd pryd bynnag y bo modd i asesu perfformiad myfyrwyr yn yr iaith Gymraeg ni waeth beth yw iaith yr addysgu/hyfforddi.

4.2.5 *Asesu Ymchwil a Chyllido Ymchwil* Y pedwar corff cyllido yn y DU sy'n gyfrifol, ar y cyd, am asesu ansawdd ymchwil academaidd yn y DU. Cynhelir yr Ymarfer Asesu Ymchwil nesaf yn 2008. Bydd y trefniadau'n cynnwys darpariaeth ffurfiol ar gyfer asesu gwaith a gyflwynir drwy gyfrwng y Gymraeg, gan gydnabod statws cyfartal y Gymraeg a'r Saesneg yng Nghymru. Bydd hyn yn diogelu cadernid academaidd ymchwil a gyflwynir drwy gyfrwng y Gymraeg drwy sicrhau y gellir ei farnu yn erbyn meini prawf ansawdd ar gyfer y DU gyfan. Bydd hyn yn galluogi'r sector i gefnogi'n hyderus staff academaidd sy'n ymgymryd ag ymchwil drwy gyfrwng y Gymraeg.

4.2.6 Bydd gwaith o'r fath, o fewn y meini prawf ar gyfer asesu a chyllido, yn cael ei gyllido drwy ddull cyllido ymchwil y Cyngor. Mae hyn yn cynnwys ymchwil i faterion yn ymwneud â'r iaith Gymraeg a wneir gan sefydliadau addysg uwch yn ogystal â gwaith Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae'r Cyngor hefyd yn rhoi cymorth ariannol i Fwrdd Gwybodau Celtaidd Prifysgol Cymru ar gyfer Uned y Geiriadur Cymraeg ac i Wasg Prifysgol Cymru i'w galluogi i gyhoeddi ymchwil academaidd, gan gynnwys gwaith yn y Gymraeg a/neu yn ymwneud â Chymru, na fyddai efallai yn fasnachol hyfyw fel arall.

4.3 DATBLYGIADAU DIWEDDAR YM MAES DARPARIAETH CYFRWNG CYMRAEG

4.3.1 Wedi cyhoeddi *Ymgeisio'n Uwch*, cyflwynodd CCAUC ddau adroddiad i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes, y naill ar y lefelau presennol o alw a chyflenwad mewn addysg uwch cyfrwng Cymraeg, ym mis Gorffennaf 2002, a'r llall, a oedd yn cynnwys argymhellion ar sut i gynyddu galw a chyflenwad ym maes darpariaeth cyfrwng Cymraeg, ym mis Chwefror 2003. Paratowyd adroddiad mis Chwefror 2003 mewn ymgynghoriad â Chadeirydd a chynrychiolwyr Bwrdd y Brifysgol ar gyfer Dysgu Drwy Gyfrwng y Gymraeg ac amlinellodd fframwaith strategol ar gyfer datblygu darpariaeth drwy'r sector. Cynhwysodd gynlluniau penodol ar gyfer cynyddu nifer y staff cyfrwng Cymraeg, hybu gweithgareddau cydweithiol, ac ar gyfer cydlynu a chymorth canolog drwy sefydlu canolfan genedlaethol dros ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.

4.3.2 Nododd yr adroddiad hefyd yr angen i sefydlu grŵp llywio i ddatblygu strategaeth genedlaethol ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg. Er nad oedd y Gweinidog yn gallu darparu cyllid, yn y tymor byr o leiaf, ar gyfer y cynigion yn yr adroddiad, penderfynodd CCAUC fynd ati i sefydlu'r grŵp llywio fel y gallai ddechrau'r gwaith o ddatblygu strategaeth gynhwysfawr a thymor-hwy i'w hystyried gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

4.3.3 Sefydlwyd y Grŵp Llywio ym mis Tachwedd 2003. Mae gan y Grŵp Llywio gynrychiolaeth eang o'r sector AU a chyrff eraill sydd â diddordeb mewn neu gyfraniad i'w wneud at ddatblygu AU cyfrwng Cymraeg, gan gynnwys cynrychiolwyr o'r sector ôl-16 ac ysgolion, Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr yng Nghymru, a chyflogwyr. Mae ganddo gadeirydd annibynnol. Cefnogir ei waith gan y bartneriaeth waith agos rhwng swyddogion CCAUC a'r Uned Datblygu Addysg Cyfrwng Cymraeg, a phartneriaid eraill. Er mai CCAUC a aeth ati i sefydlu'r Grŵp Llywio, a swyddogion y Cyngor sydd yn darparu ysgrifenyddiaeth ar ei gyfer, mae CCAUC yn ystyried bod y Grŵp Llywio yn ei hanfod yn bartneriaeth â'r sector, yn hytrach na phwyllgor a reolir gan y Cyngor. Rhaid i'r sector fod yn berchen ar y strategaeth sy'n esblygu. Mae'r Gweinidog wedi croesawu sefydlu'r Grŵp Llywio.

4.3.4 Mae'r strategaeth sy'n cael ei datblygu gan y Grŵp Llywio yn adeiladu ar waith a wnaed eisoes gan Fwrdd y Brifysgol ar gyfer Dysgu Drwy Gyfrwng y Gymraeg a'r Uned Datblygu Addysg Cyfrwng Cymraeg, ac a ddatblygwyd yn y ddau adroddiad ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a gyflwynwyd gan CCAUC i'r Gweinidog.

4.3.5 Cafodd strategaeth ddrafft ei dosbarthu at bwrpas ymgynghori ym mis Gorffennaf 2004. Yn dilyn y cyfnod ymgynghori, caiff y strategaeth ei hystyried gan y Cyngor yn ei gyfarfod ym mis Hydref 2004. Mewn cyflwyniadau i Lywodraeth y Cynulliad yn y dyfodol ar ddatblygiad strategol darpariaeth cyfrwng Cymraeg, bydd CCAUC yn nodi'n glir yr hyn y gellir ei gyflawni â'r lefel bresennol o adnoddau, a'r hyn na fydd modd ei gyflawni heb fuddsoddiad ychwanegol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

4.3.6 Bydd mabwysiadu ymagwedd gydweithiol at ddatblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn ganolog i'r strategaeth. Sefydlodd CCAUC Gronfa Ailgyflunio a Chydweithio yn 2002-03 gyda'r cyllid ychwanegol sy'n cael ei ryddhau gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i ddatblygu'r agwedd hon ar yr agenda *Ymgeisio'n Uwch*. Mae sefydliadau yn cyflwyno cynigion am arian o'r Gronfa yn erbyn meini prawf penodol, ac ystyrir y rhain gan Banel sy'n gwneud argymhellion i'r Cyngor. Caiff cynigion a gefnogir gan y Cyngor eu cyflwyno i Lywodraeth Cynulliad Cymru i'w cymeradwyo. Gallai'r Gronfa fod yn ffynhonnell ariannol bwysig ar gyfer datblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Mae'r Gweinidog wedi nodi bod Llywodraeth y Cynulliad yn disgwyl y bydd y sector yn manteisio ar y cyfleoedd a gynigir gan y Gronfa i ddatblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar sail gydweithiol. Bydd y Cyngor yn gweithio gyda'r sector i'w alluogi i gyflwyno cynigion priodol sy'n gyson â meini prawf y Gronfa ac â'r strategaeth genedlaethol ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg.

4.4 POLISÏAU CCAUC AR GYFER DARPARIAETH CYFRWNG CYMRAEG 2004-05 HYD 2006-07

4.4.1 Mae polisïau CCAUC ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn deillio o'i Strategaeth Gorfforaethol a'i Gynllun Corfforaethol a baratoir o fewn cyd-destun *Ymgeisio'n Uwch* a'r llythyrau cylch gwaith ac arweiniad y mae'r Cyngor yn eu derbyn gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Strategaeth Gorfforaethol a Chynllun Corfforaethol CCAUC

4.4.2 Mae'r adrannau canlynol o Strategaeth Gorfforaethol hyd 2010 a Chynllun Corfforaethol 2004-05 hyd 2006-07 y Cyngor yn ymwneud â dwyieithrwydd a darpariaeth cyfrwng Cymraeg (Sylwer: caiff y Cynllun Corfforaethol ei ddiweddaru a'i rolio ymlaen bob blwyddyn):

Canlyniadau Strategol erbyn 2010	***Amcanion Tymor Hir / Dangosyddion Perfformiad Allweddol erbyn 2010***	***Targedau / Allbynnau 2004-07***	***Gweithredu yn ystod y cyfnod cynllunio, 2004-07***
Y 'FARGEN I FYFYRWYR' Sector addysg uwch sy'n: ▪ cynnig ystod o ddarpariaeth addysg uwch cyfrwng Cymraeg i gwrdd ag anghenion Cymru; ac yn ▪ cwrdd â nodau'r Cynulliad mewn perthynas â dwyieithrwydd	Y gyfran o fyfyrwyr yn SAUau a SABau Cymru sy'n ymgymryd â rhyw elfen o'u cwrs AU drwy gyfrwng y Gymraeg i godi o 3.4% i 7%	Cyfran y myfyrwyr yn SAUau a SABau Cymru sy'n ymgymryd â rhyw elfen o'u cwrs AU drwy gyfrwng y Gymraeg i godi i 4.4% erbyn diwedd y cyfnod cynllunio Gwaith yr Uned Datblygu Addysg Cyfrwng Cymraeg i gyfrannu at ehangu darpariaeth cyfrwng Cymraeg	▪ Darparu cyllid ar gyfer Uned Datblygu Addysg Cyfrwng Cymraeg a gweithio'n agos â Swyddog Datblygu'r Uned ▪ Gweithio gyda'r Cyngor Cenedlaethol - ELWa i sicrhau bod strategaethau'r ddau Gyngor ar gyfer datblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn gyson â'i gilydd ▪ Cyhoeddi Cynllun Iaith Gymraeg, gan gynnwys polisïau'r Cyngor ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ▪ Gweithio gyda'r sector i ddatblygu strategaeth ar y cyd rhwng y Cyngor a'r sector ar gyfer datblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg ▪ Defnyddio'r strategaeth cyfrwng Cymraeg i fonitro datblygiadau cyfrwng Cymraeg sy'n codi o newid strwythurol a chyllid ailgyflunio a chydweithio
HYFFORDDIANT CYCHWYNNOL ATHRAWON Cyflenwad o athrawon newydd o safon uchel i gwrdd ag anghenion ysgolion yng Nghymru	Hyfforddiant cychwynnol athrawon cyfrwng Cymraeg i gwrdd ag anghenion addysg cyfrwng Cymraeg ac i weld cynnydd o 20% ar niferoedd 2000/01 erbyn 2010	Cymorth yn ei le ar gyfer darparwyr HCA i'w galluogi i ehangu darpariaeth cyfrwng Cymraeg drwy gyflwyno targedau i'r mecanwaith cyllido strategol HCA newydd Cymorth yn ei le ar gyfer darparwyr sy'n cynnig Cymraeg fel pwnc HCA	▪ Cyflwyno targedau i strategaethau HCA, gan gynnwys recriwtio i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ▪ Symud ymlaen â'r cynllun gweithredu ar gyfer recriwtio i Gymraeg HCA mewn cydweithrediad â'r darparwyr

Egwyddorion allweddol

4.4.3 Mae polisïau'r Cyngor ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg wedi'u seilio ar gyfres o egwyddorion allweddol. Mae'r rhain wedi'u trosi'n amcanion yn y Cynllun Gweithredu isod.

- Datblygu polisi yng nghyd-destun targed Llywodraeth y Cynulliad yn *Ymgeisio'n Uwch* ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg a'r agenda ailgyflunio a chydweithio yn *Ymgeisio'n Uwch*
- Parhau i ddarparu cyllid prif ffrwd ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg drwy'r premiwm cyfrwng Cymraeg, yn amodol ar unrhyw adolygiadau yn y dyfodol o ddulliau cyllido addysgu cyffredinol y Cyngor neu faterion sy'n benodol i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg *(Amcan 1)*
- Cynnal perthynas waith agos â'r Swyddog Datblygu Addysg Cyfrwng Cymraeg *(Amcanion 2, 4)*
- Datblygu strategaeth genedlaethol drwy'r Grŵp Llywio ar gyfer Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg mewn Addysg Uwch *(Amcan 3)*
- Gosod targedau ac allbynnau gan sefydliadau unigol ac ar lefel sectorol a fydd yn cyfrannu at gwrdd â tharged 2010 Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg *(Amcan 4)*
- Parhau i gynghori'r sefydliadau i fabwysiadu ymagwedd strategol at ddatblygu a chyflwyno darpariaeth cyfrwng Cymraeg, ac i sicrhau bod eu cynlluniau yn cyd-fynd â'u cynlluniau iaith Gymraeg *(Amcanion 5, 8)*
- Cefnogi'r sector i gynyddu nifer y staff cyfrwng Cymraeg *(Amcan 6)*
- Meithrin cydweithio rhwng sefydliadau i ddatblygu a chyflwyno darpariaeth cyfrwng Cymraeg. *(Amcan 7)*
- Darparu cyllid ychwanegol i gefnogi cyflawni cynlluniau a thargedau, gan gynnwys drwy ddatblygiadau cydweithiol *(Amcanion 5, 7)*
- Datblygu a gweithredu polisïau HCA penodol i gwrdd â'r angen am athrawon iaith Gymraeg a chyfrwng Cymraeg mewn ysgolion *(Amcan 8)*
- Ymgymryd â neu gomisiynu dadansoddiad ystadegol ac ymchwil er mwyn cyfrannu at ddatblygu a gwerthuso polisi *(Amcanion 4, 6)*
- Gweithio mewn partneriaeth â chyrff perthnasol, er enghraifft, Bwrdd yr Iaith Gymraeg, Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant - ELWa, Estyn, a Chyngor Addysgu Cyffredinol Cymru *(Amcanion 5, 8, 9)*
- Monitro a gwerthuso canlyniadau yn rheolaidd *(Yn berthnasol i bob amcan)*

4.4.4 Y Cyngor sy'n gyfrifol yn y pen draw am bolisi ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, a'r Prif Weithredwr sy'n gyfrifol am sicrhau y gweithredir y polisi hwn. Y Pennaeth Dysgu ac Addysgu sy'n gyfrifol am arwain a sicrhau bod y polisi yn cael ei ddatblygu a'i weithredu o ddydd i ddydd. Bydd staff yn y Tîm Dysgu ac Addysgu yn ymgynghori â chydweithwyr eraill yn CCAUC fel y bo'n briodol. Bydd hyn yn sicrhau bod polisi'n cael ei ddatblygu o fewn cyd-destun ehangach y blaenoriaethau a'r polisïau ar gyfer addysg uwch, gan gynnwys ailgyflunio a chydweithio, ehangu mynediad i grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli mewn addysg uwch a meithrin yr arfer gorau mewn dysgu ac addysgu.

4.4.5 Bydd y Cyngor yn sicrhau bod dwyieithrwydd/darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn cael sylw yn ei Strategaeth Gorfforaethol, Cynllun Corfforaethol a Chynlluniau Gweithredol ac y rhoddir ystyriaeth iddynt ym mhapurau'r Cyngor, a bod y polisïau newydd yn cyd-fynd â strategaeth y Cyngor ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg ac â'r Cynllun Iaith Gymraeg.

4.4.6 ***Cynllun Gweithredu***

Dylid edrych ar y cynllun gweithredu hwn fel un dros dro ar hyn o bryd, yn enwedig mewn perthynas â'r Strategaeth Genedlaethol a Chydweithio rhwng Sefydliadau, a'r gweithredoedd cysylltiedig sy'n tarddu o'r meysydd hyn. Bydd y cynllun yn cael ei ddatblygu ymhellach pan fydd ymateb Llywodraeth y Cynulliad i'r strategaeth arfaethedig a chanlyniadau'r cynigion sy'n cael eu datblygu am gyllid o'r Gronfa Ailgyflunio a Chydweithio yn hysbys. Bydd y cynllun gweithredu diwygiedig yn cael ei gyflwyno i Fwrdd yr Iaith Gymraeg i'w gymeradwyo a'i gynnwys yn y Cynllun.

Mae'r berthynas waith agos rhwng y Cyngor a'r Swyddog Datblygu Addysg Cyfrwng Cymraeg wedi'i nodi. Mae gan yr Uned Datblygu Addysg Cyfrwng Cymraeg ran bwysig i'w chwarae o ran datblygu cynlluniau ar y cyd â'r Cyngor a rhoi gweithgareddau ar waith i gefnogi datblygiad strategol darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar ran y sector a'r Cyngor.

Mater	**Amcan**				**Gweithredu**	**Targedau/amserlenni**
Cyllid prif ffrwd	**1**	1.1	Darparu cyllid ar gyfer y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg bresennol a darpariaeth newydd wrth iddi gael ei chyflwyno	1.1.1	Fel rhan o'r dyraniadau cyllid prif ffrwd ar gyfer addysgu, gwneud taliadau premiwm o 0.26 ar yr uned adnodd priodol bob blwyddyn ar gyfer cofrestriadau ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg	Cyhoeddi dyraniadau premiwm cyfrwng Cymraeg ar gyfer y flwyddyn academaidd sydd i ddod bob mis Mawrth, yng nghyhoeddiad y Cyngor ar ddyraniadau grant rheolaidd y sefydliadau
Uned Datblygu Addysg Cyfrwng Cymraeg	**2**	2.1	Cefnogi datblygu rôl yr Uned Datblygu Addysg Cyfrwng Cymraeg	2.1.1	Parhau â chymorth ariannol ar gyfer Uned Datblygu Addysg Cyfrwng Cymraeg sydd wedi'i lleoli ym Mhrifysgol Cymru	Mae'r Cyngor wedi cytuno ar gymorth ariannol ar gyfer yr Uned mewn egwyddor hyd fis Gorffennaf 2005. Gwneir penderfyniadau ar gymorth wedi hyn erbyn mis Rhagfyr 2004
				2.1.2	Trafod cynllun busnes yr Uned, gan gynnwys blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn i ddod, a bwrw ymlaen â gweithgareddau penodol ar ran y Cyngor	Cytuno ar gynllun busnes yr Uned erbyn mis Hydref bob blwyddyn
				2.1.3	Cadw mewn cysylltiad rheolaidd â'r Swyddog Datblygu Addysg Cyfrwng Cymraeg	Cynnal cyfarfodydd cyswllt oddeutu bob chwe wythnos. Cynnal cyfarfodydd ad hoc i drafod materion penodol yn ôl y gofyn
				2.1.4	Gweithio â'r Swyddog Datblygu Addysg Cyfrwng Cymraeg i ddatblygu agweddau ar waith yr Uned yn adnodd cenedlaethol i'r sector	Fel uchod (2.1.3) a thrwy i swyddogion y Cyngor gymryd rhan mewn cyfarfodydd rhwng y Swyddog a grwpiau sector ac ati

Strategaeth genedlaethol	**3**	3.1	Datblygu strategaeth genedlaethol ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn addysg uwch	3.1.1	Ymgynghori ar y strategaeth ddrafft a gynhyrchir gan y Grŵp Llywio ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn addysg uwch	Gorffennaf i Fedi 2004
				3.1.2	Y Cyngor i ystyried y strategaeth yn ffurfiol, yn dilyn y cyfnod ymgynghori	Hydref 2004
				3.1.3	Cyflwyno'r strategaeth i Lywodraeth Cynulliad Cymru	Tachwedd 2004
Gosod targedau a pherfformiad	**4**	4.1	Sefydlu a monitro targedau sefydliadol a sectoraidd cynyddrannol ar gyfer cynnydd mewn cofrestriadau cyfrwng Cymraeg yng ngoleuni targed 2010 Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg	4.1.1	Gofyn i sefydliadau gyflwyno gwybodaeth am dargedau a chynnydd yn erbyn targedau fel rhan o gais y Cyngor am gynlluniau strategol sefydliadol	Bob blwyddyn ym mis Gorffennaf. Cyflwyno'r dadansoddiad i'r Cyngor ym mis Hydref
				4.1.2	Dadansoddi tueddiadau yn nata'r Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch ar gofrestriadau cyfrwng Cymraeg	Bob blwyddyn, Medi i Ragfyr
				4.1.3	Adrodd i'r Grŵp Llywio ar berfformiad y sector yn erbyn y targed cyfrwng Cymraeg yn *Ymgeisio'n Uwch*	Bob blwyddyn ym mis Rhagfyr (gan ddibynnu ar ba bryd y cynhelir cyfarfodydd y Grŵp Llywio)
				4.1.4	Trafod â'r Swyddog Datblygu Addysg Cyfrwng Cymraeg ynghylch sut y bydd cynlluniau a gweithgareddau'r Uned yn cyfrannu at gyflawni'r strategaeth genedlaethol a'i thargedau	Fel rhan o'r ystyriaeth a roddir bob blwyddyn i Gynllun Busnes yr Uned (gweler 2.1.2 uchod)

Strategaethau darpariaeth cyfrwng Cymraeg y sefydliadau	**5**	5 .1	Annog a chynorthwyo sefydliadau i ddatblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn ffordd strategol	5.1.1	Gwneud dyraniadau bob blwyddyn o'r gronfa darpariaeth cyfrwng Cymraeg i gefnogi datblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg, naill ai'n uniongyrchol i sefydliadau neu drwy Uned Datblygu Addysg Cyfrwng Cymraeg	Rhyddheir cyllid bob blwyddyn ar yr amod bod cynlluniau/cynigion sefydliadol derbyniol ar gyfer defnyddio'r cyllid yn cael eu derbyn (Bydd y dull dyrannu presennol ar gyfer y Gronfa mewn grym hyd 2005/06. Fe'i hadolygir yn ystod 2005/06)
				5.1.2	Darparu adborth adeiladol i sefydliadau ar eu cynlluniau ar gyfer cynnal a datblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg	Adborth i gael ei ddarparu mewn ymgynghoriad â'r Swyddog Datblygu Addysg Cyfrwng Cymraeg a swyddogion Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Ymweliadau swyddogion y Cyngor â sefydliadau gyda'r Swyddog Datblygu Addysg Cyfrwng Cymraeg i drafod cynlluniau'n fanylach
				5.1.3	Yn ychwanegol, rhoi arweiniad i sefydliadau sydd ag ychydig o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ar sut i ddatblygu eu darpariaeth mewn ffordd strategol	Arweiniad i'w roi gan y Swyddog Datblygu Addysg Cyfrwng Cymraeg
		5.2	Hybu cydlyniad rhwng cynlluniau sefydliadol a'r strategaeth genedlaethol	5.2.1	Rhoi arweiniad i sefydliadau sy'n pwysleisio'r angen iddynt ddatblygu eu cynlluniau o fewn cyd-destun y strategaeth genedlaethol	O 2004/05
		5.3	Hybu cydlyniad rhwng cynlluniau sefydliadol a Chynlluniau Iaith Gymraeg sefydliadol	5.3.1	Rhoi arweiniad i sefydliadau ar bwysigrwydd cydlyniad â'u Cynlluniau Iaith Gymraeg	Parhau â'r arfer presennol, fel rhan o'r arweiniad ar gynigion i'r Gronfa Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg
				5.3.2	Trafod cynlluniau sefydliadol â swyddogion Bwrdd yr Iaith Gymraeg	Fel uchod (gweler 5.1.2)

Cynyddu nifer y staff	**6**	6.1	Penderfynu ar nifer y staff sydd eu hangen i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yng ngoleuni targed 2010 Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg	6.1.1	Cytuno â'r Swyddog Datblygu Addysg Cyfrwng Cymraeg ar hyd a lled astudiaeth o nifer y staff sydd eu hangen i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg mewn SAUau	Gwneir astudiaeth yn ystod y flwyddyn academaidd 2004/05 gan Swyddog Datblygu Addysg Cyfrwng Cymraeg
				6.1.2	Defnyddio data'r Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch i ddadansoddi tueddiadau mewn lefelau staffio cyfrwng Cymraeg	Bob blwyddyn, Medi i Ragfyr
				6.1.3	Defnyddio gwybodaeth a geir drwy 6.1.1 a 6.1.2 i ddatblygu a gweithredu'r strategaeth genedlaethol ymhellach mewn perthynas â datblygu/recriwtio staff	Wrth i wybodaeth ddod i law
		6.2	Cefnogi cynyddu nifer y staff cyfrwng Cymraeg yn y sector	6.2.1	Parhau â'r cynllun i ddyfarnu Cymrodoriaethau Addysgu Cyfrwng Cymraeg yn 2004//05	Parhaus. Mae parhad y cynllun y tu hwnt i 2004/05 yn destun cynnig i'r Gronfa Ailgyflunio a Chydweithio, ynghyd â Chynllun Ysgoloriaethau i Raddedigion
Cydweithio rhwng sefydliadau	**7**	7.1	Annog sefydliadau i gydweithio i ddatblygu a chyflwyno darpariaeth	7.1.1	Annog y sector i ddatblygu a chynnig ceisiadau priodol ar gyfer cydweithio neu ailgyflunio sy'n gyson â'r strategaeth genedlaethol a'u cyflwyno i Gronfa Ailgyflunio a Chydweithio CCAUC	Parhaus
				7.1.1	Rhoi arweiniad i sefydliadau i gynnwys cynlluniau cydweithiol o fewn eu cynlluniau darpariaeth cyfrwng Cymraeg	Fel 4.1.1 uchod
				7.1.2	Uned Addysgu Cyfrwng Cymraeg i annog datblygiadau cydweithiol, o ran gwneud ceisiadau am gyllid datblygu a thrwy waith traws-sector paneli pwnc yr Uned	Bob blwyddyn
				7.1.3	Cynnal a datblygu ymhellach gysylltiadau ag Academi Addysg Uwch y DU fel y gall darpariaeth cyfrwng Cymraeg elwa ar yr arfer gorau ac ar ddatblygiadau arloesol mewn dysgu ac addysgu, gan gynnwys cyflwyno darpariaeth ar y cyd	Parhau â'r gweithgaredd presennol

Hyfforddiant cychwynnol athrawon	**8**	8.1	Cyfrannu at gwrdd â'r angen am athrawon iaith Gymraeg a chyfrwng Cymraeg mewn ysgolion	8.1.1	Gofyn i sefydliadau baratoi a chyflwyno strategaethau ar gyfer hyfforddiant cychwynnol athrawon (HCA), gan gynnwys cynlluniau a thargedau ar gyfer darpariaeth iaith Gymraeg a chyfrwng Cymraeg, a gefnogir gan ddyraniadau a wneir drwy'r dull cyllido HCA newydd	Strategaethau cyntaf ar gyfer y cyfnod o 2003/04 i 2005/06 ym mis Rhagfyr 2003. Datganiad monitro blynyddol i'w gyflwyno gan sefydliadau ym mis Gorffennaf bob blwyddyn
				8.1.2	Monitro a gwerthuso cynnydd yn erbyn y cynllun gweithredu y cytunwyd arno gyda'r sector i fynd i'r afael â phroblemau recriwtio i hyfforddiant cychwynnol athrawon uwchradd ar gyfer Cymraeg fel pwnc	Cwblhawyd y prif weithredoedd. Mae rhai gweithredoedd yn barhaus
				8.1.3	Cyfrannu at lunio'r cynllun gweithredu ar recriwtio athrawon, gan gynnwys athrawon iaith Gymraeg/cyfrwng Cymraeg, a fydd yn cael ei baratoi gan Gyngor Addysgu Cyffredinol Cymru	Parhaus
				8.1.4	Cyfrannu at ystyriaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru o newidiadau i'r cynllun cymhelliant ar gyfer athrawon dan hyfforddiant cyfrwng Cymraeg, gan gynnwys y diffiniad o HCA cyfrwng Cymraeg	Parhaus
				8.1.5	Cyfrannu at adolygiad Llywodraeth Cynulliad Cymru o HCA a fydd yn cynnwys rhoi ystyriaeth i dargedau ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg	Parhaus
Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant - ELWa	**9**	9.1	Sicrhau cysondeb rhwng strategaethau CCAUC ac ELWa ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg	9.1.1	Gweithio'n agos â swyddogion ELWa sy'n gyfrifol am bolisi ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg	Parhau â chroes-gynrychiolaeth swyddogion y Cynghorau ar Grŵp Llywio CCAUC a Phwyllgor Dwyieithrwydd y Cyngor Cenedlaethol. Cynhelir cyfarfodydd cyswllt rhwng swyddogion oddeutu bob wyth wythnos; cyfarfodydd ad hoc i'w trefnu fel y bo angen

RHAN 3

5 GWEITHREDU A MONITRO'R CYNLLUN

5.1 STAFFIO, DATBLYGU STAFF A RECRIWTIO STAFF

5.1.1 Mae CCAUC wedi ymrwymo i weithio tuag at sicrhau bod ganddo ddigon o staff Cymraeg eu hiaith i'w alluogi i weithredu ei Gynllun Iaith.

Strategaeth Sgiliau Ieithyddol

5.1.2 Er mwyn sicrhau, dros gyfnod o amser, fod CCAUC yn gallu darparu ei wasanaethau yn y Gymraeg i safon uchel, yn effeithiol ac yn effeithlon, bydd yn mabwysiadu Strategaeth Sgiliau Ieithyddol fel rhan o'i broses cynllunio adnoddau dynol. Bydd y Strategaeth hon yn galluogi CCAUC i gadw golwg ar ei anghenion a'i adnoddau o ran sgiliau ieithyddol, ac i gydlynu gweithgareddau hyfforddi a recriwtio i hwyluso amcanion y Cynllun. Bydd y mesurau sy'n dilyn yn ffurfio rhan o'r Strategaeth honno.

5.1.3 Er mwyn gwireddu'r ymrwymiad uchod, bydd CCAUC yn ymgymryd ag archwiliad o'i wasanaethau a'i staff er mwyn nodi'n wrthrychol:

- y sefyllfaoedd lle mae cysylltiad â'r cyhoedd yng Nghymru a natur y cysylltiad hwnnw,
- y sefyllfaoedd lle mae datblygiadau polisi yn ymwneud â materion iaith Gymraeg a chyfrwng Cymraeg mewn addysg uwch
- sgiliau dwyieithog y staff presennol ac i ba raddau y byddai gan staff ddiddordeb mewn dysgu neu uwchraddio eu sgiliau.

Ar ôl cynnal a dadansoddi'r arolwg uchod, bydd CCAUC yn nodi'r swyddi hynny lle mae'r gallu i gyfathrebu yn y Gymraeg yn hanfodol, yn ddymunol neu lle ystyrir nad oes angen y gallu i gyfathrebu drwy'r Gymraeg.

5.1.4 Caiff yr archwiliad ei ddiweddaru bob blwyddyn i gynnwys newidiadau i weithgareddau'r Cyngor, staff newydd, a sgiliau a ddatblygwyd yn y gweithle. Bydd sgiliau staff newydd yn y Gymraeg yn cael eu gwerthuso fel rhan o'r broses sefydlu.

5.1.5 Bydd pob swydd newydd a phob swydd bresennol sy'n mynd yn wag yn cael eu hystyried yng ngoleuni Strategaeth Sgiliau Ieithyddol y Cynllun hwn. Wrth wneud hyn, bydd CCAUC yn ymwybodol o'r angen i fanteisio ar bob cyfle posibl i lenwi unrhyw fylchau mewn sgiliau Cymraeg a fydd yn effeithio ar y gwasanaeth Cymraeg a ddarperir gan y Cyngor.

5.1.6 Ar ôl dadansoddi'r archwiliad cychwynnol, bydd CCAUC hefyd yn paratoi strategaeth datblygu a recriwtio staff, gyda gweithredoedd a thargedau tymor-byr a thymor-hwy priodol. Bydd hyn yn cymryd i ystyriaeth y mesurau a ddisgrifir o dan *Datblygu staff* isod.

Datblygu staff

5.1.7 Bydd CCAUC yn hybu'r defnydd o'r Gymraeg ymhlith ei staff. Rhoddir anogaeth a chefnogaeth i bob aelod staff i ddysgu'r Gymraeg neu i wella ei gymhwysedd a'i hyder i siarad, darllen ac ysgrifennu drwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd yr hyfforddiant a ddarperir ar gyfer staff ar lefel a fydd yn gwella safon eu Cymraeg fel y gallant wneud eu dyletswyddau yn effeithlon. Mae'r Cyngor yn ystyried bod cefnogaeth o'r fath yn bwysig gan ei bod yn cynyddu ei allu cyffredinol i weithredu ei Gynllun Iaith Gymraeg a meithrin diwylliant dwyieithog o fewn y corff a fydd yn cael ei adlewyrchu yn ei gysylltiadau â'r sector addysg uwch a'r cyhoedd yng Nghymru. Bydd staff sy'n dymuno gwneud hynny yn gallu ymateb i siaradwyr Cymraeg yn unol â'u sgiliau datblygol. Bydd hyn yn werthfawr mewn corff megis CCAUC lle mae llawer o'r staff yn ymdrin â meysydd polisi arbenigol.

5.1.8 Bydd CCAUC hefyd yn asesu'r angen am hyfforddiant swydd-gysylltiedig i feithrin gallu siaradwyr Cymraeg, a dysgwyr Cymraeg wrth iddynt ddatblygu, i weithredu drwy gyfrwng y Gymraeg.

5.1.9 Bydd CCAUC yn

- blaenoriaethu anghenion hyfforddiant y staff er mwyn cwrdd â gofynion y Cynllun
- cymryd i ystyriaeth anghenion hyfforddiant a ddarganfyddir yn ystod y broses anwytho, ac wedyn fel rhan o'r drefn rheoli a datblygu perfformiad, er mwyn cynllunio cyrsiau datblygu iaith i staff yn unol â'u ceisiadau ac anghenion CCAUC
- cefnogi neu drefnu hyfforddiant i staff Cymraeg i loywi eu medrau siarad, darllen ac ysgrifennu yn y Gymraeg
- cefnogi neu drefnu hyfforddiant i staff di-Gymraeg sy'n dymuno dysgu'r Gymraeg
- cefnogi neu drefnu hyfforddiant swydd-gysylltiedig drwy gyfrwng y Gymraeg lle nodir angen o'r fath, er mwyn hwyluso gweithredu'r cynllun.

Recriwtio

5.1.10 Bydd CCAUC yn nodi'r sgiliau ieithyddol sydd eu hangen ar gyfer swyddi newydd ac yn cadarnhau'r sgiliau ieithyddol sydd eu hangen pan fydd swyddi presennol yn mynd yn wag.

5.1.11 Pan ystyrir bod gallu ieithyddol yn hanfodol neu'n ddymunol ar gyfer unrhyw swydd gyda CCAUC, pennir hyn yn yr hysbysebion a disgrifiadau swydd wrth recriwtio i'r swydd honno. Bydd pob hysbyseb yn cynnwys datganiad ar ymrwymiad CCAUC i ddwyieithrwydd.

5.1.12 Os bydd siaradwr di-Gymraeg yn cael ei benodi i swydd lle ystyrir bod y gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol, un o amodau'r gyflogaeth fydd dysgu'r iaith i'r lefel angenrheidiol o fewn cyfnod rhesymol o amser y cytunir arno. Ym mhob trefniant o'r math hwn, bydd CCAUC yn rhoi'r amser a'r cymorth sy'n angenrheidiol i alluogi'r aelod o staff i fodloni'r amod a bydd yn sicrhau nad yw'r aelod staff dan anfantais mewn ffyrdd eraill o ganlyniad i fodloni'r amod hwn. Bydd y rhaglen ddysgu'n cael ei strwythuro a'i monitro'n rheolaidd i sicrhau bod y cyflogwr a'r aelod staff yn cadw at yr ymrwymiad.

5.2 TREFNIADAU GWEINYDDOL

5.2.1 Mae'r ymrwymiadau a'r trefniadau a nodir yn y Cynllun hwn wedi cael eu cymeradwyo gan CCAUC a chânt eu gweithredu gydag awdurdod llawn y Cyngor.

5.2.2 Y Prif Weithredwr sy'n bennaf gyfrifol am sicrhau y gweithredir y Cynllun. Y Cyfarwyddwyr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol a Phenaethiaid y Timau o fewn CCAUC sy'n gyfrifol am weithredu'r agweddau hynny ar y Cynllun sy'n berthnasol i'w cylchoedd gwaith hwy. Yr Uwch Reolwr Dysgu ac Addysgu sydd â chyfrifoldeb dros ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn CCAUC (a elwir yn Swyddog y Cynllun Iaith Gymraeg at bwrpas y Cynllun hwn) a fydd yn gyfrifol am gydlynu'r Cynllun. Nodir cyfrifoldebau penodol yn y tabl gweithredu isod.

5.2.3 Rhoddir canllawiau i'r staff ar eu cyfrifoldebau o dan y Cynllun a'r hyn y mae gofyn iddynt ei wneud i sicrhau ei weithrediad. Bydd hyn yn cynnwys canllawiau ar agweddau ar y Cynllun y mae'n rhaid i'r holl staff fod yn ymwybodol ohonynt a datblygu arweiniad mwy manwl ar agweddau penodol at ddefnydd staff perthnasol. Mae'n bolisi gan CCAUC i ddarparu mwy a mwy o wybodaeth i'w staff drwy ddulliau electronig ac felly bydd modd iddynt gyrchu'r Cynllun Iaith Gymraeg, ac unrhyw arweiniad cysylltiedig, ar safle mewnrwyd y Cyngor.

5.2.4 Bydd CCAUC hefyd yn trefnu sesiynau codi ymwybyddiaeth i'r holl staff ar ofynion y Cynllun Iaith Gymraeg, hyrwyddo dwyieithrwydd, a phrif-ffrydio'r iaith Gymraeg o fewn gweithgareddau'r Cyngor yn fwy cyffredinol. Trefnir hyfforddiant ychwanegol fel y bo angen.

5.2.5 Bydd staff newydd yn cael gwybod am eu cyfrifoldebau o dan y Cynllun fel rhan o'r broses anwytho a threfnir hyfforddiant pellach os oes angen.

5.2.6 Bydd CCAUC yn parhau i ymgorffori agweddau Cymraeg ar ei wasanaethau yn ei drefniadau gweinyddol arferol.

5.2.7 Mae CCAUC yn cadw rhestr gyfredol o'r staff Cymraeg eu hiaith sy'n gallu ymateb i aelodau o'r cyhoedd yn y Gymraeg neu sy'n gallu helpu staff di-Gymraeg i ddarparu gwasanaeth i'r

cyhoedd drwy gyfrwng y Gymraeg. Nodir y staff dan sylw ar y llyfr ffôn mewnol ac mae'r rhestr ar gael hefyd ar safle mewnrwyd y Cyngor.

5.2.8 Defnyddir cyfieithwyr allanol fel y bo angen. Cedwir rhestr o gyfieithwyr, wedi'i seilio ar ddyfynbrisiau cystadleuol a geisir o bryd i'w gilydd. Mae safon y cyfieithu yn ffactor hanfodol yn y broses o ddewis cyfieithwyr.

5.2.9 Bydd meddalwedd gwirio sillafu/gramadeg a geiriaduron electronig ar gael i'r staff a chaiff y rhain eu diweddaru fel y bo angen. Mae ffontiau a osodir ar y cyfrifiaduron yn darparu'r nodau sydd eu hangen i deipio'r Gymraeg yn gywir.

5.2.10 Bydd CCAUC yn gwneud pob ymdrech bosibl i sicrhau nad yw ei gyfarpar cyfrifiadurol yn llesteirio gweithredu'r ymrwymiadau a'r mesurau a ddisgrifir yn y Cynllun Iaith hwn. Bydd unrhyw fanylebau ar gyfer rhaglenni cyfrifiadurol newydd yn cymryd y Cynllun Iaith hwn i ystyriaeth fel y bo'n briodol.

5.3 GWASANAETHAU A DDARPERIR AR RAN CCAUC GAN BARTÏON ERAILL

5.3.1 Bydd CCAUC yn sicrhau bod unrhyw gytundebau neu drefniadau a wneir gyda thrydydd partïon sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau ar gyfer y cyhoedd yng Nghymru yn gyson ag ymrwymiadau'r Cynllun. Bydd hyn yn cynnwys gwasanaethau a roddir allan ar gontract. I gyflawni hyn bydd CCAUC yn:

- Nodi mewn dogfennau tendr a chontractau ac yn amodau grantiau a benthyciadau, unrhyw ofynion arbennig ynghylch y defnydd o'r Gymraeg.
- Monitro gofynion o'r fath i sicrhau bod y contractwr yn eu cyflawni.

5.3.2 Os bydd CCAUC yn penodi ymgynghorwyr allanol i ymgymryd ag astudiaethau neu adolygiadau yn y sector addysg uwch yng Nghymru, bydd yn nodi unrhyw ofynion o ran darparu gwasanaethau yn y Gymraeg neu ystyried materion cyfrwng Cymraeg fel y bônt yn briodol i'r prosiectau dan sylw.

5.3.3 Bydd CCAUC fel arfer yn cyhoeddi dogfennau a manylebau tendr yn y Saesneg yn unig er mwyn gwneud y defnydd mwyaf effeithiol o arian cyhoeddus ac yn sicrhau bod y broses dendro yn gost-effeithiol. Fodd bynnag, gallai tendrau am wasanaethau Cymraeg fod yn ddwyieithog neu'n Gymraeg fel y bo'n briodol.

5.3.4 Bydd CCAUC yn contractio gydag Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch y DU (ASA) bob blwyddyn er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau statudol ar gyfer sicrhau ansawdd darpariaeth addysg uwch yng Nghymru o dan delerau Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992. Bydd yr ASA yn cwrdd â gofynion Cynllun Iaith Gymraeg CCAUC drwy ei gontract blynyddol gyda'r Cyngor. Mae'r ASA ei hunan wedi'i dynodi'n gorff y mae ei wasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru yn dod o dan delerau Deddf yr Iaith Gymraeg 1993. Mae Cynlluniau Iaith yr ASA a CCAUC wedi cael eu datblygu ochr yn ochr a bu cysylltu priodol rhwng y ddau gorff i sicrhau bod telerau'r ddau Gynllun yn cefnogi ei gilydd wrth hybu'r egwyddor o gydraddoldeb i'r Gymraeg a'r Saesneg.

5.4 MONITRO

5.4.1 Caiff monitro'r Cynllun Iaith Gymraeg ei gydlynu gan Swyddog y Cynllun Iaith Gymraeg.

5.4.2 Bydd adroddiadau ffurfiol ar y Cynllun Iaith Gymraeg yn cael eu cyflwyno i'r Grŵp Polisi Addysg Uwch, sy'n cynnwys uwch reolwyr ac a gadeirir gan y Prif Weithredwr. Bydd Swyddog y Cynllun Iaith Gymraeg yn gofyn i'r staff sy'n gyfrifol am y gwahanol rannau o'r Cynllun, fel y nodir yn y cynllun gweithredu isod, gyflwyno adroddiadau bob chwarter ar gynnydd. Yna caiff adroddiad ei lunio i'w roi gerbron y Grŵp Polisi Addysg Uwch. Bydd y Grŵp Polisi Addysg Uwch hefyd yn ystyried yr adroddiad cydymffurfio blynyddol (gweler 5.4.4 isod) cyn iddo gael ei gyflwyno i'r Cyngor.

5.4.3 Hefyd bydd llawer o'r gweithgareddau yn Rhan 2 o'r Cynllun yn cael eu monitro wrth fonitro Cynllun Gweithredol CCAUC; mae'r monitro hwn yn cynnwys adroddiadau ar gynnydd i'r Cyngor bob chwarter.

5.4.4 Bydd adroddiad cydymffurfio blynyddol yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor a fydd yn rhoi sylw i'r ddau gwestiwn sylfaenol canlynol:

- A yw CCAUC yn cydymffurfio â'r Cynllun?
- Pa mor dda y mae'n gwneud hyn?

Bydd yr adroddiad yn ymdrin â:

- y gwasanaethau a ddarperir i'r cyhoedd
- datblygiad a gweithrediad y polisi ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn addysg uwch
- sut mae Strategaeth Sgiliau Ieithyddol y Cyngor yn dod yn ei blaen
- pa mor ddigonol yw trefniadau gweinyddol y Cyngor ar gyfer cynnal gweithrediad y Cynllun
- cwynion ac awgrymiadau am welliannau a wneir gan y cyhoedd.

Os yw'r adroddiad cydymffurfio yn nodi unrhyw wendidau, bydd CCAUC yn paratoi cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r rhain. Anfonir copi o'r adroddiad cydymffurfio at Fwrdd yr Iaith Gymraeg.

5.4.5 Yn ystod trydedd flwyddyn y Cynllun hwn, bydd CCAUC yn gwerthuso'r modd y gweithredwyd y Cynllun yn ystod y tair blynedd cyntaf. Bydd yr adroddiad gwerthuso yn:

- darparu dadansoddiad thematig o gydymffurfiad a pherfformiad dros gyfnod y Cynllun
- amlinellu blaenoriaethau ar gyfer y tair blynedd nesaf sy'n deillio o'r gwerthusiad, ynghyd ag amserlen ddiwygiedig ar gyfer gweithredu'r mesurau yn y Cynllun.

5.4.6 Wedi'r gwerthusiad, bydd CCAUC yn adolygu ac yn diweddaru ei Gynllun Iaith Gymraeg ac yn ei gyflwyno i Fwrdd yr Iaith Gymraeg i'w gymeradwyo ar gyfer y cyfnod gweithredu nesaf.

5.4.7 Dylid cyfeirio cwynion am weithrediad y Cynllun yn y lle cyntaf i Swyddog y Cynllun Iaith Gymraeg (mae'r cyfeiriad yn 5.7.3 isod). Os methir â datrys y mater i foddhad yr achwynydd wedi ymchwiliad, caiff ei ystyried a'i ddatrys drwy drefn gwyno gyffredinol y Cyngor (a weinyddir gan Glerc y Cyngor y gellir cysylltu ag ef/neu â hi yn y cyfeiriad yn 5.7.3 isod)

5.5 TARGEDAU

5.5.1 Mae targedau penodol ar gyfer gweithredu pob agwedd ar y Cynllun wedi cael eu nodi yn Adran 6 isod, Cynllun Gweithredu a Thargedau.

5.6 CYHOEDDI GWYBODAETH

5.6.1 Bydd CCAUC yn cyhoeddi gwybodaeth am ei berfformiad yn erbyn y Cynllun Iaith Gymraeg yn ei Adroddiad Blynyddol a chynhwysir crynodeb yn y rhifyn o newyddlen y Cyngor sy'n cyd-fynd â chyhoeddi'r Adroddiad Blynyddol. Cyhoeddir yr adroddiad cydymffurfio blynyddol a gyflwynir i Fwrdd yr Iaith Gymraeg ar wefan y Cyngor.

5.7 CYHOEDDUSRWYDD

5.7.1 Bydd Cynllun Iaith Gymraeg CCAUC yn cael ei gyhoeddi ar ei wefan, ynghyd â thudalen flaen sy'n amlinellu prif ddarpariaethau'r Cynllun, gan gynnwys gwasanaethau yn yr iaith Gymraeg i'r cyhoedd. Bydd y dudalen we hefyd yn cynnwys gwybodaeth ynghylch sut i wneud ymholiadau neu gwynion am y Cynllun neu awgrymiadau ar ei wella. Fel y nodwyd yn 5.6.1, bydd y dudalen we yn cynnwys cysylltiadau i'r adroddiadau perfformiad/cydymffurfio wrth i'r rhain gael eu cynhyrchu. Pan gyhoeddir y Cynllun gyntaf rhoddir gwybod am hyn yn newyddlen y Cyngor a nodir bodolaeth y Cynllun, ynghyd â'r cysylltiad priodol i'r wefan, fel eitem sefydlog yn y newyddlen.

5.7.2 Fel y nodwyd uchod (5.2.3), bydd y Cynllun Iaith Gymraeg a'r arweiniad cysylltiedig ar gael i'r staff drwy fewnrwyd y Cyngor ac mae mesurau eraill wedi cael eu hamlinellu yn y Cynllun i wneud staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau. Bydd CCAUC hefyd yn sicrhau bod unrhyw gontractwyr neu asiantau yn cael gwybod am eu rhwymedigaethau fel y bo'n briodol, gan ddefnyddio'r mesurau a nodwyd mewn mannau eraill yn y Cynllun hwn ymhlith dulliau eraill.

5.7.3 Gellir cael gwybodaeth bellach am y Cynllun hwn gan:

Swyddog y Cynllun Iaith Gymraeg
CCAUC
Cwrt Linden
Y Berllan
Clos Ilex
CAERDYDD CF14 5DZ.

6 CYNLLUN GWEITHREDU A THARGEDAU

MAES	RHIF PARAGRAFF	TASG	AMSERLEN/TARGED	CYFRIFOLDEB
1.1 CYNLLUNIO: POLISÏAU A CHYNLLUNIAU NEWYDD A DDIWYGIEDIG	1.1.1	Rhoi gwybod i staff perthnasol am eu cyfrifoldebau	O'r adeg y cymeradwyir y Cynllun	Prif Weithredwr
	1.1.2-4	Prosesau ar gyfer ystyried materion Cymraeg i gael eu hymgorffori	O fewn 9 mis ar ôl cymeradwyo'r Cynllun	Uwch Reolwyr
1.2 CYFLWYNO GWASANAETHAU	1.2.1-2.	Fel y nodir mewn mannau eraill yn y Cynllun		
	1.2.3 –4	Gweithio mewn partneriaeth – rhoi gwybod i'r staff am eu rôl fel rhan o'r arweiniad ar y Cynllun i'r staff	Fel rhan o'r rhaglen o ddatblygu arweiniad yn raddol – o fewn 6 mis ar ôl cymeradwyo'r Cynllun (gweler 5.2.3 isod)	Swyddog y Cynllun Iaith Gymraeg
1.3 SAFON Y GWASANAETHAU	1.3.2	Cyhoeddi ymrwymiad i wasanaeth o'r un safon uchel yn y Gymraeg	O'r adeg y cymeradwyir y Cynllun ac wrth i fersiynau wedi'u diweddaru o wybodaeth/dogfennau perthnasol gael eu cyhoeddi	Uwch Swyddog Cynllunio a Llywodraeth Gorfforaethol; Pennaeth Adnoddau Dynol (AD)
	1.3.3-4	Gweinyddu a monitro safonau gwasanaeth / trefn gwyno / cyhoeddi gwybodaeth	O'r adeg y cymeradwyir y Cynllun	Uwch Swyddog Cynllunio a Llywodraeth Gorfforaethol, mewn cyswllt â Swyddog y Cynllun Iaith Gymraeg

2.1 GOHEBIAETH YSGRIFENEDIG	2.1.1-7	Mae'r ymrwymiadau yn yr adran hon yn adlewyrchu arfer presennol i raddau helaeth. Cymerir y camau ychwanegol canlynol	Yn eu lle, ac eithrio fel y nodir isod	Yr holl staff
		Rhoddir arweiniad i'r holl staff	Canllawiau sylfaenol i gael eu dosbarthu o fewn 6 wythnos ar ôl cymeradwyo'r Cynllun (gweler 5.2.3 isod)	Swyddog y Cynllun Iaith Gymraeg; Uwch Swyddog Cynllunio a Llywodraeth Gorfforaethol
	2.1.3	Sefydlu cronfa ddata o'r rheiny sy'n dymuno derbyn gohebiaeth drwy gyfrwng y Gymraeg	I'w chreu yn raddol wedi cymeradwyo'r Cynllun	Wedi'i chydlynu gan Swyddog y Cynllun Iaith Gymraeg. Yr holl staff i gyfrannu fel y bo'n briodol
	2.1.4	Gweithredu'r ymrwymiad yn y Cynllun ynghylch gohebiaeth e-bost	O fewn dau fis wedi cymeradwyo'r Cynllun	Adran TG mewn cyswllt â Swyddog y Cynllun Iaith Gymraeg
2.2 CYFATHREBU DROS Y FFÔN	2.2.3-6	Mae'r gofynion o ran gweithredu'r switsfwrdd a nodi staff Cymraeg eu hiaith ar y llyfr ffôn mewnol yn adlewyrchu arfer presennol	Yn eu lle	Pennaeth Cyfleusterau; Pennaeth AD
		Bydd gwella gallu'r corff i ymateb i alwadau yn y Gymraeg na all gweithredwr y switsfwrdd ymdrin â hwy yn tarddu o ddatblygu a gweithredu'r Strategaeth Sgiliau Ieithyddol (gweler 5.1 isod). Cymerir y camau canlynol hefyd		Pennaeth AD
		Rhoi arweiniad i'r staff	Canllawiau sylfaenol i'w dosbarthu o fewn 6 mis ar ôl cymeradwyo'r Cynllun (gweler 5.2.3 isod)	Swyddog y Cynllun Iaith Gymraeg; Uwch Swyddog Cynllunio a Llywodraeth Gorfforaethol
	2.2.5	Penodi siaradwyr Cymraeg a Saesneg rhugl yn y dyfodol / darparu hyfforddiant	Wrth i swyddi gwag godi	Pennaeth AD

2.3 CYFARFODYDD CYHOEDDUS		Mae'r ymrwymiadau yn yr adran hon yn adlewyrchu arfer presennol i raddau helaeth. Cymerir y camau ychwanegol canlynol	Yn eu lle, ac eithrio fel y nodir isod	Uwch Swyddog Cynllunio a Llywodraeth Gorfforaethol
		Rhoi arweiniad i'r holl staff	Canllawiau sylfaenol i gael eu dosbarthu o fewn 6 wythnos ar ôl cymeradwyo'r Cynllun (gweler 5.2.3 isod)	Swyddog y Cynllun Iaith Gymraeg; Uwch Swyddog Cynllunio a Llywodraeth Gorfforaethol
	2.3.3	Staff Cymraeg eu hiaith, y gellir eu hadnabod drwy fathodyn, i fod yn bresennol mewn digwyddiadau o bwys	O'r adeg y cymeradwyir y Cynllun	Uwch Swyddog Cynllunio a Llywodraeth Gorfforaethol
2.4 CYFARFODYDD ERAILL Â'R CYHOEDD	2.4.1-2.4.3	Bydd gwella gallu'r corff i ymateb i ymholiadau wyneb yn wyneb gan y cyhoedd yn tarddu o weithredu'r Strategaeth Sgiliau Ieithyddol (gweler 5.1 isod).		Pennaeth AD
		Nodyn cyfarwyddo cychwynnol i'r staff ar gyfrifoldebau o dan yr adran hon	Pan gymeradwyir y Cynllun	Swyddog y Cynllun Iaith Gymraeg
		Rhoi arweiniad i'r staff	Canllawiau sylfaenol i gael eu dosbarthu o fewn 6 wythnos ar ôl cymeradwyo'r Cynllun (gweler 5.2.3 isod)	Swyddog y Cynllun Iaith Gymraeg; Uwch Swyddog Cynllunio a Llywodraeth Gorfforaethol
	2.4.1	Trefniadau ar gyfer ymdrin ag ymholiadau cyffredinol	O'r adeg y cymeradwyir y Cynllun	Staff derbynfa
	2.4.2	Trefniadau ar gyfer ymholiadau arbenigol	O'r adeg y cymeradwyir y Cynllun	Yr holl staff gyda chyngor gan Swyddog y Cynllun Iaith Gymraeg os oes angen
	2.4.3	Trefniadau ar gyfer fideogynadledda	O'r adeg y cymeradwyir y Cynllun	Yr holl staff

3.1 Hunaniaeth Gorfforaethol	3.1.1	Mae'r ymrwymiadau yn yr adran hon yn adlewyrchu arfer presennol. Cymerir y camau ychwanegol canlynol	Yn eu lle	Mae nifer o staff yn gyfrifol. Swyddog y Cynllun Iaith Gymraeg i gadarnhau bod y staff dan sylw yn deall eu cyfrifoldebau
		Rhoi arweiniad i'r holl staff	Canllawiau sylfaenol i gael eu dosbarthu o fewn 6 wythnos ar ôl cymeradwyo'r Cynllun (gweler 5.2.3 isod)	Swyddog y Cynllun Iaith Gymraeg; Uwch Swyddog Cynllunio a Llywodraeth Gorfforaethol
3.2 Arwyddion	3.2.1-3.2.4	Mae'r ymrwymiadau yn yr adran hon yn adlewyrchu arfer presennol	Yn eu lle	Pennaeth Cyfleusterau
		Rhoi arweiniad i'r holl staff	Canllawiau sylfaenol i gael eu dosbarthu o fewn 6 wythnos ar ôl cymeradwyo'r Cynllun (gweler 5.2.3 isod)	Swyddog y Cynllun Iaith Gymraeg; Uwch Swyddog Cynllunio a Llywodraeth Gorfforaethol
3.3 Deunyddiau sy'n cael eu Cyhoeddi a'u Hargraffu		Mae'r ymrwymiadau yn yr adran hon yn adlewyrchu arfer presennol i raddau helaeth	Yn eu lle, ac eithrio fel y nodir isod	Uwch Swyddog Cynllunio a Llywodraeth Gorfforaethol
		Rhoi arweiniad i'r holl staff	Canllawiau sylfaenol i gael eu dosbarthu o fewn 6 wythnos ar ôl cymeradwyo'r Cynllun (gweler 5.2.3 isod)	Swyddog y Cynllun Iaith Gymraeg; Uwch Swyddog Cynllunio a Llywodraeth Gorfforaethol
	3.3.3	Dogfennau Cymraeg a Saesneg ar wahân – datganiad bod y ddogfen ar gael mewn iaith arall	O'r adeg y cymeradwyir y Cynllun	Uwch Swyddog Cynllunio a Llywodraeth Gorfforaethol Yr holl staff i fod yn ymwybodol
	3.3.8	Trefniadau ar gyfer cynhyrchu a dosbarthu'n ddwyieithog ddeunyddiau eraill sydd â dosbarthiad eang a chyffredinol	O'r adeg y cymeradwyir y Cynllun	Uwch Swyddog Cynllunio a Llywodraeth Gorfforaethol Yr holl staff i fod yn ymwybodol
	3.3.9	Arweiniad ysgrifenedig i staff, ymgynghorwyr, dylunwyr a chyhoeddwyr ar gyhoeddiadau dwyieithog	O fewn 9 wythnos ar ôl cymeradwyo'r Cynllun (gweler 5.2.3 isod)	Uwch Swyddog Cynllunio a Llywodraeth Gorfforaethol; Swyddog y Cynllun Iaith Gymraeg

GWEFAN CCAUC	3.3.10-11	Arfer presennol	Yn eu lle, ac eithrio fel y nodir isod	Uwch Swyddog Cynllunio a Llywodraeth Gorfforaethol
		Rhoi arweiniad i'r staff	Canllawiau sylfaenol i gael eu dosbarthu o fewn 6 wythnos ar ôl cymeradwyo'r Cynllun (gweler 5.2.3 isod)	Swyddog y Cynllun Iaith Gymraeg; Uwch Swyddog Cynllunio a Llywodraeth Gorfforaethol
	3.3.10	Cytuno â Bwrdd yr Iaith Gymraeg bob blwyddyn ar y tudalennau gwe a fydd ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg	Cytuno ar amserlen gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg	Swyddog y Cynllun Iaith Gymraeg; Uwch Swyddog Cynllunio a Llywodraeth Gorfforaethol
3.4 FFURFLENNI A DEUNYDD EGLURHAOL CYSYLLTIEDIG	3.4.1	Trefnu bod ffurflenni dwyieithog ar gael, ayyb	Rhaglen i'w chyflwyno'n raddol a'i chwblhau o fewn 6 mis ar ôl cymeradwyo'r Cynllun	Swyddfa'r Prif Weithredwr / Pennaeth Cyllid / Pennaeth AD fel y bo'n briodol
	3.4.2	Adolygu ffurflenni eraill y gellid eu darparu'n ddwyieithog	O fewn blwyddyn ar ôl cymeradwyo'r Cynllun	Swyddog y Cynllun Iaith Gymraeg fel y bo'n briodol
3.5 DATGANIADAU I'R WASG	3.5.1	Cyhoeddi datganiadau i'r wasg yn ddwyieithog yng Nghymru	O'r adeg y cymeradwyir y Cynllun	Uwch Swyddog Cynllunio a Llywodraeth Gorfforaethol
3.6 CYSYLLTIADAU CYHOEDDUS A MARCHNATA	3.6.1-3.6.2	Llenyddiaeth / ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd	Perthnasedd i CCAUC yn gyfyngedig. Ond arweiniad i'w baratoi o fewn 9 mis ar ôl cymeradwyo'r Cynllun (gweler 5.2.3 isod)	Swyddog y Cynllun Iaith Gymraeg; Uwch Swyddog Cynllunio a Llywodraeth Gorfforaethol
	3.6.3	Arolygon cyhoeddus	Anaml y cynhelir y rhain. Arweiniad i'w baratoi o fewn 9 mis ar ôl cymeradwyo'r Cynllun (gweler 5.2.3 isod)	Swyddog y Cynllun Iaith Gymraeg
	3.6.4	Stondinau / llenyddiaeth ar gyfer arddangosfeydd	Trefnu i arddangosfeydd / llenyddiaeth arddangosfeydd fod yn ddwyieithog os nad ydynt eisoes yn barod o fewn 6 mis ar ôl cymeradwyo'r Cynllun	Yr holl staff fel y bo'n briodol
			Canllawiau sylfaenol i gael eu dosbarthu o fewn 6 wythnos ar ôl cymeradwyo'r Cynllun (gweler 5.2.3 isod)	Swyddog y Cynllun Iaith Gymraeg

3.7 Hysbysiadau Swyddogol, Hysbysiadau Cyhoeddus a Hysbysebion Recriwtio Staff	3.7.1	Hysbysiadau – dangos Cymraeg a Saesneg gyda'i gilydd ac ati	O'r adeg y cymeradwyir y Cynllun	Uwch Reolwr Cynllunio Corfforaethol a Llywodraeth Gorfforaethol; Uwch Swyddog Cynllunio a Llywodraeth Gorfforaethol; staff eraill fel y bo'n briodol
	3.7.2.-3	Trefniadau ar gyfer hysbysebion recriwtio staff	O'r adeg y cymeradwyir y Cynllun	Pennaeth AD
			Canllawiau sylfaenol i gael eu dosbarthu o fewn 6 wythnos ar ôl cymeradwyo'r Cynllun (gweler 5.2.3 isod)	Swyddog y Cynllun Iaith Gymraeg

4 Addysg Uwch Cyfrwng Cymraeg a Dwyieithog		**Gweler y cynllun gweithredu ar wahân uchod (4.4.6)**		Pennaeth Dysgu ac Addysgu

5 GWEITHREDU A MONITRO				
5.1 STAFFIO, DATBLYGU STAFF A RECRIWTIO STAFF				
Strategaeth Sgiliau Ieithyddol	5.1.3	Archwiliad o wasanaethau a staff	O fewn 6 mis ar ôl cymeradwyo'r Cynllun	Pennaeth AD
	5.1.4	Diweddariad blynyddol o'r archwiliad	Bob blwyddyn ar ôl cwblhau'r archwiliad 1af	Pennaeth AD
		Gwerthuso hyfedredd staff newydd yn yr iaith Gymraeg fel rhan o'r broses anwytho	O fewn 3 mis ar ôl cymeradwyo'r Cynllun	Pennaeth AD
	5.1.5	Ystyried swyddi gwag yn nhermau'r sgiliau Cymraeg sydd eu hangen	O'r adeg y cymeradwyir y Cynllun. Bydd y Strategaeth Sgiliau Ieithyddol yn llywio gweithredu yn y dyfodol	Pennaeth AD
	5.1.6	Paratoi Strategaeth Sgiliau Ieithyddol	O fewn 9 mis ar ôl cymeradwyo'r Cynllun	Pennaeth AD
Datblygu staff	5.1.8	Asesu'r angen am hyfforddiant swydd-gysylltiedig	O fewn 6 mis ar ôl cymeradwyo'r Cynllun fel rhan o'r archwiliad yn 5.1.3 uchod	Pennaeth AD
	5.1.9	Darparu hyfforddiant / datblygiad staff	Proses orgyffyrddol mewn camau fydd hon gan fod peth ohoni'n adlewyrchu arfer presennol. Datblygir strategaeth ffurfiol fel y nodir yn 5.1.6 uchod. Ond trefnir hyfforddiant i staff yn y cyfamser lle ystyrir bod hyn yn angenrheidiol i hwyluso gweithredu'r Cynllun neu mewn cynlluniau datblygiad personol. Bydd Adnoddau Dynol hefyd yn ystyried, fel rhan o'r Strategaeth Sgiliau Ieithyddol, a oes angen cymorth arbenigol i ddarganfod y lefelau o sgil sydd gan y staff	Pennaeth AD

RECRIWTIO	5.1.10	Penderfynu ar / cadarnhau'r sgiliau ieithyddol sydd eu hangen ar gyfer swyddi	O'r adeg y cymeradwyir y Cynllun (gweler 5.1.5 uchod hefyd)	Pennaeth AD
	5.1.11	Nodi bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol//dymunol mewn gwybodaeth am swyddi ac ati. Datganiad o ymrwymiad i ddwyieithrwydd mewn hysbysebion	O'r adeg y cymeradwyir y Cynllun	Pennaeth AD
	5.1.12	Trefniadau ar gyfer hyfforddi staff di-Gymraeg sydd mewn swyddi lle mae sgiliau Cymraeg yn hanfodol	O'r adeg y cymeradwyir y Cynllun / fel mae'r angen yn codi	Pennaeth AD
5.2 TREFNIADAU GWEINYDDOL	5.2.3	Trefnu i'r Cynllun fod ar gael ar y fewnrwyd	O'r adeg y cymeradwyir y Cynllun	Swyddog y Cynllun Iaith Gymraeg; Uwch Swyddog Cynllunio a Llywodraeth Gorfforaethol
	5.2.3	Paratoi canllawiau i'r staff	Canllawiau sylfaenol o fewn 6 wythnos ar ôl cymeradwyo'r Cynllun. Datblygu amserlen a blaenoriaethau ar gyfer arweiniad mwy manwl – canllawiau ar y prif feysydd i'w cwblhau o fewn 9 mis ar ôl cymeradwyo'r Cynllun	Swyddog y Cynllun Iaith Gymraeg mewn ymgynghoriad â staff eraill fel y bo'n briodol
	5.2.4	Sesiynau i godi ymwybyddiaeth	Cwblhau'r rhaglen o fewn 6 mis ar ôl cymeradwyo'r Cynllun	Pennaeth AD mewn trafodaeth â Swyddog y Cynllun Iaith Gymraeg/ Swyddogion Bwrdd yr Iaith Gymraeg
	5.2.5	Staff newydd i gael gwybod am eu cyfrifoldebau o dan y Cynllun fel rhan o'r broses anwytho	O'r adeg y cymeradwyir y Cynllun	Pennaeth AD; Swyddog y Cynllun Iaith Gymraeg
	5.2.7	Nodi staff Cymraeg eu hiaith ar y llyfr ffôn mewnol	Yn ei le	Pennaeth AD
	5.2.8	Trefniadau cyfieithu	Yn eu lle	Swyddog y Cynllun Iaith Gymraeg
	5.2.9	Meddalwedd gwirio sillafu / cyfeirlyfrau ac ati	Yn eu lle. Uwchraddio fel y bo'n briodol	Adran TG mewn cyswllt â Swyddog y Cynllun Iaith Gymraeg
	5.2.10	Cytunedd cyfarpar cyfrifiadurol	Fel y bo'n berthnasol	Pennaeth Rheoli Gwybodaeth a Thechnoleg Gwybodaeth

5.3 Gwasanaethau a Ddarperir ar ran CCAUC	5.3.1-5.3.4	Trefniadau ar gyfer tendro – gofynion iaith Gymraeg / cyfrwng Cymraeg.	O'r adeg y cymeradwyir y Cynllun	Cyfarwyddwr Cyllid, staff eraill fel y bo'n briodol
	5.3.5	Asiantaeth Sicrhau Ansawdd – cwrdd ag ymrwymiadau mewn perthynas â'r Gymraeg	Caiff cytundeb lefel gwasanaeth CCAUC gyda'r ASA ei fonitro bob blwyddyn (hydref)	Pennaeth Dysgu ac Addysgu
5.4 Monitro	5.4.2-3	Adrodd ar gynnydd yn ystod y flwyddyn	Cydlynu / Paratoi	Swyddog y Cynllun Iaith Gymraeg; Cyfarwyddwyr; Penaethiaid Timau; Uwch Swyddog Cynllunio a Llywodraeth Gorfforaethol
	5.4.4	Paratoi adroddiad cydymffurfio blynyddol		Swyddog y Cynllun Iaith Gymraeg
	5.4.5-6	Adroddiad / gwerthusiad yn y 3edd flwyddyn a diwygio'r Cynllun	Amserlen / strwythur i gael eu paratoi yn ystod chwarter 1af y drydedd flwyddyn	Swyddog y Cynllun Iaith Gymraeg mewn trafodaeth ag Uwch Reolwyr a Swyddogion Bwrdd yr Iaith Gymraeg
5.6 Cyhoeddi Gwybodaeth	5.6.1	Cyhoeddi gwybodaeth ar berfformiad	Fel yr amserlen ar gyfer cyhoeddi'r Adroddiad Blynyddol	Swyddog y Cynllun Iaith Gymraeg; Uwch Swyddog Cynllunio a Llywodraeth Gorfforaethol
5.7 Cyhoeddusrwydd	5.7.1	Cyhoeddi'r Cynllun ar y wefan	O'r adeg y cymeradwyir y Cynllun	Swyddog y Cynllun Iaith Gymraeg; Uwch Swyddog Cynllunio a Llywodraeth Gorfforaethol
	5.7.2	Cyhoeddi'r Cynllun ac arweiniad ar y fewnrwyd	O'r adeg y cymeradwyir y Cynllun ac wrth i arweiniad ymddangos	Swyddog y Cynllun Iaith Gymraeg; Uwch Swyddog Cynllunio a Llywodraeth Gorfforaethol
	5.7.2	Sicrhau bod asiantau a chontractwyr yn ymwybodol o'u rhwymedigaethau	O'r adeg y cymeradwyir y Cynllun	Yr holl staff
			Canllawiau sylfaenol i'w dosbarthu o fewn 6 wythnos ar ôl cymeradwyo'r Cynllun (gweler 5.2.3 uchod)	Swyddog y Cynllun Iaith Gymraeg